

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideo	Sarah Beasley
gynadledda drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: 16 Ionawr 2025	0300 200 6565
Amser: 09.30	Seneddlechyd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(09.00–09.30)

Cyfarfod cyhoeddus

(09.30 – 12.15)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26

(Tudalennau 1 – 77)

Jeremy Miles AS – Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dawn Bowden AS – Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Sarah Murphy AS – Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Sioned Rees – Cyfarwyddwr dros dro Diogelu Iechyd y Cyhoedd

Albert Heaney – Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru

Alex Slade – Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Iechyd Meddwl a'r Blynnyddoedd

Cynnar

Hywel Jones – Cyfarwyddwr Cyllid

Nick Wood – Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru

Briff Ymchwil

Papur 1 – Papur cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi

(12:15)



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- 3.1 Llythyr gan y Cadeirydd i Lywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025–26.
(Tudalennau 78 – 81)
- 3.2 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch Deiseb P–06–1400 ar adnoddau teg a digonol ar gyfer practisau cyffredinol yng Nghymru.
(Tudalennau 82 – 86)
- 3.3 Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
(Tudalennau 87 – 88)
- 3.4 Llythyr oddi wrth Andrew RT Davies AS ynglŷn â rhwyll lawfeddygol.
(Tudalen 89)
- 3.5 Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol ynghylch gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 2 ar Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).
(Tudalennau 90 – 94)
- 3.6 Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P–06–1370: Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn.
(Tudalennau 95 – 98)
- 3.7 Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr Gofal Canser Tenovus ynghylch y cynnydd arfaethedig yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y cyflogwr.
(Tudalennau 99 – 100)
- 3.8 Llythyr oddi wrth Jane Dodds AS ynglŷn â chynnig am ymchwiliad i niwed sy'n gysylltiedig â gamblo yng Nghymru.
(Tudalennau 101 – 102)
- 3.9 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P–06–1480: Gwneud y menopos yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer pob myfyriwr y gwyddorau gofal iechyd a meddygaeth.
(Tudalennau 103 – 104)

- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.**

(12.15)

Cyfarfod preifat

(12.15 – 12.45)

- 5 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26: Trafod y dystiolaeth**

(12.15–12.45)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Cais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am dystiolaeth

Tystiolaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025- 26

Rhagfyr 2024

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i gais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am wybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26.

Cynnwys

1.	Blaenoriaethu	4
	Chwyddiant a thwf na ellir ei osgoi mewn galw	5
	Rhagdybiaethau Arbedion	6
	Dyrannu cyllid ar gyfer 2025/26	6
	Newidiadau eraill i'r Gyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol	7
2.	Amseroedd aros	9
	Cymharu data atgyfeirio a thriniaeth (RTT) mis Medi 2024 a mis Mawrth 2024	10
3.	Iechyd meddwl	12
	Strategaeth iechyd meddwl ac atal hunanladdiad	12
	Gwella mynediad at wasanaethau a chanlyniadau	13
4.	Y Gweithlu	14
5.	Gofal sylfaenol	16
6.	Trawsnewid gwasanaethau	18
	Rheoli atgyfeiriadau	18
	Prosiectau trawsnewid cleifion allanol	19
	Cynhyrchiant theatrau	19
	Llawdriniaeth Lai Cymhleth Cyfaint Uchel	20
	Ailddylunio llwybrau gofal llygaid	20
	Cyflwyno gwasanaethau aros yn iach	20
	Datblygiadau patholeg digidol	20
7.	Atal	22
	Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	23
	Brechiadau	24
	Sgrinio	25
8.	Ystadau a seilwaith	26
	Digidol, Arloesedd a Thechnoleg	27
9.	Anghydraddoldebau iechyd I	30
	Dechrau'n Deg	30
	Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu	31

Y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf	31
10. Anghydraddoldebau iechyd II	32
11. Iechyd Menywod	34
12. Asesu effaith/gwerth am arian.....	36
GIG.....	36
Dechrau'n Deg.....	37
Gofal Cymdeithasol.....	37
13. Perfformiad a chynlluniau ariannol y Bwrdd Iechyd.....	40
Yr wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol 2024-25	41
Dyletswydd Statudol i Fantoli'r Gyllideb 2022-23 i 2024-25	44
Cymorth ariannol ychwanegol yn ystod y flwyddyn 2024-25.....	45
Dyraniadau Byrddau Iechyd Lleol 2025-26	45
Cymorth gan Lywodraeth Cymru	45
14. Gofal Cymdeithasol.....	47
Cyllid ychwanegol 2025-26	48
Sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau	48
Gofalwyr di-dâl	49
Cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol.....	50

1. Blaenoriaethu

Manylion y dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu meysydd gwariant ar draws y gyllideb gyfan ac ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet wedi dweud y bydd cyllideb nesaf Llywodraeth Cymru "yn heriol iawn unwaith eto, a bydd yn rhaid i ni ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau pwysicaf, ac ni fydd digon o arian i gwrdd â'r holl bwysau sy'n ein hwynebu".

Ymateb:

Lluniwyd Cyllideb Ddrafft 2025-26 o amgylch blaenoriaethau allweddol mewn meysydd y mae'r Cabinet wedi nodi eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni. Blaenoriaeth y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw 'Iechyd da' - Cymru Iachach.

Mae £435m o gyllid Adnoddau ychwanegol a £175m o gyllid Cyfalaf ychwanegol ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol i helpu gyda'r gwaith parhaus o leihau amseroedd aros hir y GIG, gwella mynediad a gwella gwasanaethau iechyd menywod. Mae hyn yn adeiladu ar y cyllid ychwanegol y cytunwyd arno eisoes ar gyfer 2024-25.

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol yn cael cynnydd i hybu mynediad at ofal cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol.

Mae Tabl y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd yn dangos cynnydd o £921.73m mewn cyllid Adnoddau. Mae hyn yn cynnwys £447.65m o addasiadau sylfaenol sy'n ymwneud â chynnydd mewn cyflogau a phensiynau yn 2024-25 a chynnydd o £474.08m mewn cyllid yn 2025-26.

Mae'r cynnydd ar gyfer 2025-26 wedi'i rannu'n £435m ar gyfer Adnoddau Cyllidol a £38.2m ar gyfer Adnoddau Anghyllidol. Mae Cyllideb Derfynol 2024-25 yn cael ei hailddatgan ac mae'n cynnwys y £447.65m ychwanegol cyn ychwanegu cyllid 2025-26 i ddangos ffigur Cynllun y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26.

Mae'r tabl isod yn ddadansoddiad o'r cyllid Adnoddau ychwanegol ar gyfer prif grŵp gwariant (MEG) Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HSC):

£m	
11,318.693	Ailddatgan y Gyllideb Derfynol Medi 2024
312.500	Cyllid Cyflogau'r GIG ar gyfer 2023-24 a 2024-25
134.000	Cyllid Cynnydd Pensiwn (SCAPE) ar gyfer 2024-25
1.150	Cyflog a Phensiynau – dyraniadau ychwanegol nad ydynt yn rhai'r GIG
11,766.343	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26
0.880	Trosglwyddiad MEG i MEG o'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol
435.000	Dyraniad Refeniw Ychwanegol ar gyfer 2025-26
38.200	Cynnydd nad yw'n arian parod (addasiad IFRS 16 a Dibrisiant)
12,240.423	Cynlluniau Gyllideb Ddrafft 2025-26

Gyda'i gilydd, mae'r cynnydd mewn cyllid dros y ddwy flynedd diwethaf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn werth dros £880m neu wyth y cant, gyda'r rhan fwyaf ohono'n cefnogi cyflogau'r gweithlu.

Y dull gweithredu ar gyfer y gyllideb hon yw sicrhau bod y GIG yn cael ei gefnogi gyda setliad ar gyfer cyflogau, chwyddiant a thwff nad oes modd ei osgoi yn y galw, sy'n gynaliadwy ac a fydd yn ei alluogi i gyflawni cynlluniau cytbwys yn 2025-26. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r GIG allu cyflawni gwelliannau mewn perfformiad, canlyniadau a chynlluniau ariannol. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys y camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi elfennau allweddol 'Iechyd da' – Cymru Iachach.

Chwyddiant a thwff na ellir ei osgoi mewn galw

Mae swyddogion wedi cynnal asesiad a her ar y rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â chost twf na ellir ei osgoi mewn galw, a phwysau anochel chwyddiant yn y GIG.

Mae'n hanfodol bod digon o gyllid yn cael ei roi i'r GIG i dalu costau nad oes modd eu hosgoi, ochr yn ochr â disgwyliadau ymestyn arbedion. Bydd y costau hyn yn codi. Bydd peidio â darparu digon o gyllid i dalu costau nad oes modd eu hosgoi yn y GIG, ar ôl ystyried tybiaethau effeithiolrwydd ac ymestyn arbedion, yn effeithio ar allu'r system i gyflawni'n ariannol, ar berfformiad ac ar ganlyniadau.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod na fydd yr uchelgais na'r disgwyliad i gyllid ychwanegol wella perfformiad yn cael ei wireddu oni bai fod hyn yn atodol i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i barhau â'r gwasanaethau presennol.

Mae'r twf yn y galw a'r pwysau chwyddiant nad oes modd eu hosgoi wedi cael eu hystyried yn ofalus wrth bennu ein rhagdybiaethau cynllunio. Unwaith eto, bydd y

GIG yng Nghymru yn gosod targedau arbed heriol a bydd angen cymryd amrywiaeth o gamau gweithredu i gyflawni cynlluniau cytbwys ar gyfer 2025-26.

Rhagdybiaethau Arbedion

Ar sail yr egwyddorion a'r tybiaethau a amlinellir uchod, bydd angen i gyrff y GIG gyflawni camau gweithredu parhaus gwerth £70m 2024-25 eto yn 2025-26. Ar ben hynny, tybir y bydd y GIG yn darparu £150m, neu oddeutu 1.4 y cant o arbedion, yn rheolaidd.

Gyda'i gilydd, bydd y disgwyliad o arbedion gwerth £220m yn darged arbedion oddeutu dau y cant yn erbyn cyfanswm cyllidebau gwariant. Mae hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliad o ddau y cant a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer arbedion a chynhyrchiant ar draws adrannau, ond mae'n fwy nag asesiad hanesyddol Nuffield a'r Sefydliad Iechyd, sef bod oddeutu 1.5 y cant yn ddisgwyliad realistig o ran arbedion ac effeithlonrwydd.

Mae hyn yn ychwanegol at y ffaith bod y GIG wedi cyflawni'r lefelau uchaf erioed o arbedion yn 2023-24, sef £260m, ac erbyn hyn rhagwelir y bydd yn arbed £267m yn 2024-25.

Bydd y camau gweithredu i gyflawni'r lefel hon o arbedion yn fwy heriol o ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Felly, er bod rhywfaint o gyfle i wella o hyd, mae hyn ar raddfa lai nag o'r blaen, a heb fuddsoddiad sylweddol mewn trawsnewid i sbarduno arbedion ychwanegol.

Bydd y setliad i'r GIG ar gyfer 2025-26 yn cael ei ystyried ochr yn ochr â sut mae'r cyllid sy'n cael ei gadw yn y Prif Grŵp Gwariant yn 2024-25 (£168m) yn cael ei ddyrannu ar sail reolaidd. Bydd hyn yn cefnogi'r ymgyrch i sicrhau gwelliant parhaus, cynlluniau cytbwys, a gwneud cynnydd ar yr agenda ariannol. Mae'r dyraniad hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â setliad cyllido 2025-26, i gefnogi cynnydd mewn costau nad oes modd eu hosgoi. Wrth i safleoedd Byrddau Iechyd unigol wella drwy'r fframwaith hwnnw, rhaid i'r Byrddau Iechyd hynny sydd â'r diffyg mwyaf gymryd camau i gyflawni ar sail Prif Grŵp Gwariant cytbwys. Mae hwn yn amod allweddol sy'n cael ei nodi yn y dull gweithredu hwn.

Dyrannu cyllid ar gyfer 2025/26

Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gael ei flaenoriaethu yn 2025-26 gyda chyllid Adnoddau ychwanegol o £435m, yn ogystal â £175m o gyllid Cyfalaf ychwanegol. Mae hyn ar ben y cyllid ychwanegol a ddarparwyd i'r GIG yn 2024-25.

O'r cynnydd o £435m mewn Adnoddau, bydd dros £400m ohono'n cefnogi amrywiaeth o ddyraniadau ychwanegol i'r GIG, gan gynnwys gweithgarwch i barhau i leihau'r amseroedd aros hiraf a gwella mynediad amserol at ofal a thriniaeth. Bydd hefyd yn cefnogi dyfarniad cyflog 2025-26 ar gyfer y gweithlu, gan adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2024-25.

Yn ogystal â'r cymorth craidd ar gyfer gwasanaethau rheng flaen y GIG, byddwn yn buddsoddi dros £20m i hyfforddi'r gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys cymorth

parhaus i ehangu ysgol feddygol Gogledd Cymru a rhagor o lefydd hyfforddi meddygol a deintyddol ôl-raddedig.

Yn unol â blaenoriaethau Iechyd Da, byddwn yn darparu £3m i wella gofal iechyd i fenywod, yn unol â'r cerrig milltir a nodir yng Nghynllun Iechyd Menywod cyntaf Cymru, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024.

Gan gydnabod pa mor bwysig yw buddsoddi mewn iechyd ataliol, rydym yn cynyddu'r dyraniadau i raglenni sgrinio a brechu £3m. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn nodi rhai problemau iechyd yn gynharach ac, yn achos brechu, yn atal salwch mwy difrifol yn nes ymlaen.

Byddwn hefyd yn cynnal yr arian sydd wedi'i neilltuo i iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG a bydd hyn dros £820m yn 2025-26.

Rydym yn dyrannu £3m i gefnogi'r sector hosbisau yn 2025-26. Bydd y cyllid hwn yn rheolaidd, oherwydd rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydynt o ran cefnogi'r GIG a phawb y mae angen gofal diwedd oes arnynt.

Rydym hefyd yn buddsoddi £20m ychwanegol i gefnogi ein Cynnig Gofal Plant blaenllaw, a fydd yn darparu cynnydd hollbwysig yn y gyfradd fesul awr a delir i ddarparwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd y sector, bydd yn cefnogi'r gweithlu ac yn gwella lleoliadau a dewis rhieni.

O ran cyfalaf, mae ein cynnydd o £175m yn cynnwys £60m y bydd angen ei gyfeirio at gefnogi goblygiadau IFRS 16, sef y safon cyfrifyddu ar gyfer lesoedd. Bydd £115m ychwanegol ar gael i'w ddyrannu i gynnal a gwella ystâd y GIG a hybu cynhyrchiant y GIG, drwy fuddsoddi mewn offer newydd a thechnoleg ddigidol. Mae cyfanswm y gyllideb gyfalaf yn codi i £614m yn 2025-26.

Y tu allan i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae Gofal Cymdeithasol yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Yn 2025-26, bydd y grant cynnal refeniw yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yn cael ei gynyddu £235m i adlewyrchu'r pwysau ychwanegol sy'n wynebu awdurdodau lleol.

Mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cefnogi Gofal Cymdeithasol yn uniongyrchol drwy gyfres o gronfeydd a grantiau, gan gynnwys dros £140m o gyllid dan gyfarwyddyd, a fydd yn cael ei gynnal yn 2025-26. Mae hyn yn cynnwys cynnal cefnogaeth bresennol y rhaglen Dileu. Mae ein cyllid ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol hefyd yn cael ei gynnal ac mae'n cynnwys cynlluniau i leihau oedi wrth ryddhau cleifion a gwella darpariaeth yn y gymuned.

Newidiadau eraill i'r Gyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Yn ein cyllideb ar gyfer 2025-26 mae cynnydd o £38.2m mewn cyllid nad yw'n arian parod, ar gyfer eitemau fel costau dibrisiant.

Mae'r gostyngiad yn y gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud â'r asesiad diweddaraf o'r gyllideb sydd ei hangen ar gyfer pethau fel symudiadau disgwylidig mewn amhariadau a darpariaethau, yn bennaf yn y GIG.

Mae gennym un enghraifft o drosglwyddiad MEG i MEG lle mae grant gofal cymdeithasol gwerth £0.880m yn symud allan o'r Grant Cynnal Refeniw yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol ac yn ôl i'r cyllidebau Gofal Cymdeithasol yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae hefyd yn werth nodi bod tabl y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025-26 yn cynnwys nifer cymharol uchel o symudiadau cyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant. Yn syml, mae'r rhain yn adlewyrchu'r broses o gynnal ein cyllidebau a sicrhau bod cyllid yn y lle iawn, gan leihau'r baich gweinyddol o gyhoeddi'r cyllid hwn yn ystod y flwyddyn.

2. Amseroedd aros

Dyraniadau i gefnogi'r rhaglen trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros y GIG.

Ymateb:

Cafodd buddsoddiad blynyddol rheolaidd o £170m ei wneud i GIG Cymru yn 2022 i gefnogi'r ymrwymiad cenedlaethol i leihau oedi o ran triniaeth ac adfer ar ôl y pandemig.

Cyhoeddwyd y Cynllun Adfer ar gyfer Trawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd ym mis Ebrill 2022, gan nodi'r dull o adfer amseroedd aros a thrawsnewid gwasanaethau gofal a gynlluniwyd.

Drwy gydol 2023-24 hyd at hyd at fis Mawrth 2024, roedd gostyngiadau bob mis yn nifer y llwybrau agored a oedd yn aros dros 104 wythnos. Roedd maint y rhestr aros yn dal i dyfu drwy'r cyfnod hwn ar gyfradd o 4.7 y cant, ac mae'r duedd hon wedi parhau drwy 2024-25.

Cyfanswm nifer y llwybrau agored a oedd yn aros dros 104 wythnos ar ddiwedd mis Mawrth 2024 oedd 20,636, y pwynt isaf ers cyhoeddi'r cynllun adfer.

Ers mis Ebrill 2024, rydym wedi gweld twf yn nifer yr amseroedd aros dros 104 wythnos, er bod yr amseroedd aros hiraf wedi bod yn lleihau'n raddol yn ystod y flwyddyn hon.

Mae nifer y llwybrau dros 104 wythnos 66 y cant yn is na'r nifer uchaf.

Mae cyd-destun y newid mewn gwelliant yn ymwneud â nifer o ffactorau:

- Roedd cyfanswm maint y rhestr aros ym mis Mawrth 2024 wedi cynyddu 4.7 y cant o'i gymharu â mis Mawrth 2023. Mae'r cynnydd hwn wedi parhau drwy gydol 2024.
- Mae'r duedd mewn amseroedd aros cleifion allanol o dros 52 wythnos wedi cynyddu 15 y cant ers mis Mawrth 2024 o'i gymharu â mis Mawrth 2023.
- Mae'r tueddiadau atgyfeirio i driniaeth ac atgyfeiriadau canser wedi cynyddu, gyda'r atgyfeiriadau cyffredinol yn ystod y 12 mis diwethaf hyd at fis Medi 2024 yn cynyddu 6.7 y cant.

Er bod sefyllfa Cymru gyfan wedi gwaethygu, mae hyn yn cael ei sbarduno gan ffactorau lleol ac amrywiaeth sylweddol ar draws Byrddau Iechyd ac arbenigeddau.

Yn y Cynllun Adfer, fe wnaethom nodi saith arbenigedd sy'n cael eu herio ac mae'r rhain yn parhau i gyfrif am gyfran sylweddol o arosiadau hir mewn gwasanaethau

dewisol. Mae'r saith arbenigedd hyn yn cyfrif am 88 y cant o'r holl arosiadau hir dros 104 wythnos, y prif rai sy'n cael eu herio yw Orthopedeg (25 y cant) ac Offthalmoleg (22 y cant).

Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr sy'n gyfrifol am 43 y cant o'r holl gyfnodau aros o 104 wythnos yng Nghymru.

Cymharu data atgyfeirio a thriniaeth (RTT) mis Medi 2024 a mis Mawrth 2024

Mae'r ffocws ar amseroedd aros cleifion allanol a dulliau rheoli'r galw ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg wedi gweld gostyngiad yng nghyfanswm y rhestrau aros yn y byrddau iechyd hyn.

Gwelwyd cynnydd hefyd yn rhai o'r arbenigeddau a heriwyd a ffocws ar fenywod a phobl ifanc:

Amseroedd aros plant a phobl ifanc: gwelliant o 2.5 canran yn 2024.

Gynacoleg: mae tri bwrdd iechyd wedi clirio a chynnal dim amseroedd aros o dros 104 wythnos ac mae sefyllfa Cymru gyfan wedi dangos gwelliant o 27 y cant yn 2024.

Y glust, y trwyn a'r gwddf: mae dau fwrdd iechyd wedi clirio a chynnal dim amseroedd aros o dros 104 wythnos ac mae sefyllfa Cymru gyfan wedi dangos gwelliant o 17 y cant yn 2024.

Wroleg: mae sefyllfa Cymru gyfan wedi dangos gwelliant o 18 y cant yn 2024.

Orthopedeg: mae sefyllfa Cymru gyfan wedi dangos gwelliant o chwe y cant yn 2024.

Dermatoleg: mae pum bwrdd iechyd wedi clirio pob amser aros o dros 104 wythnos. Un bwrdd iechyd sy'n gyfrifol am 98 y cant o'r holl amseroedd aros o dros 104 wythnos. Mae'n dal i weithredu'r prosiect Telederm, y mae pob bwrdd iechyd arall wedi'i roi ar waith.

Cadarnhawyd y byddai'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael cyllid ychwanegol gan y Cronfeydd Wrth Gefn yn 2024-25 i gefnogi'r camau gweithredu i leihau amseroedd aros y GIG. Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2024, mae cyllid ychwanegol o dros £50m wedi cael ei roi i'r GIG i gefnogi gostyngiad wedi'i dargedu mewn amseroedd aros hir dros ddwy flynedd, diagnosteg dros wyth wythnos a ffocws penodol ar lwybrau niwroamrywiaeth (ND).

Bydd y GIG yn defnyddio'r £50m i wneud y canlynol:

- Trin 16,000 yn fwy o bobl erbyn diwedd mis Mawrth 2025.
- Cynnal 14,000 o brofion ychwanegol erbyn diwedd mis Mawrth 2025.
- Ychwanegu hyd at 20,000 o apwyntiadau cleifion allanol erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

Bydd y cyllid yn talu am fwy o apwyntiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau i dargedu'r amseroedd aros hiraf mewn arbenigeddau fel orthopedeg, offthalmoleg, llawdriniaeth gyffredinol a gynacoleg.

Darparwyd £3m o gyllid ychwanegol i fyrddau iechyd i leihau amseroedd aros hiraf gwasanaethau niwrowahaniaeth (ND) plant. Amcangyfrifir y gellir darparu 2,000 o apwyntiadau ychwanegol ar draws byrddau iechyd hyd at fis Mawrth 2025. Bydd yr hyn a ddysgir o'r cynllun lleihau rhestr aros ND yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chanlyniadau digwyddiad ail-ddylunio gwasanaethau niwrowahaniaeth Plant yn gyflym a gynhaliwyd ar 27 a 28 Tachwedd 2024. Bydd hyn yn cydnabod pa mor fregus yw'r gwasanaethau presennol fel catalydd i ddatblygu cynigion ar gyfer llwybrau asesu a chefnogi newydd, ar yr un pryd â mynd i'r afael â phwysau presennol rhestrau aros.

Mae ychydig dros £3m hefyd wedi cael ei dargedu i gefnogi'r gwaith o leihau amseroedd aros diagnosteg ar draws byrddau iechyd.

Mae ein holl fyrddau iechyd wedi cyflwyno cynlluniau gweithgarwch a fydd yn dechrau gweithredu ym mis Tachwedd 2024, er mwyn adrodd ar ystadegau ym mis Ionawr 2025.

Rydym wedi rhoi atebion capasiti gwell ar waith drwy fentrau rhestrau aros a threfniadau contract gyda darparwyr eraill.

Mae gan bob bwrdd iechyd lwybrau cyflawni clir a fydd yn cael eu hadrodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol bob mis.

Mae rhagor o gynlluniau'n cael eu datblygu i wella'r ddarpariaeth dros y chwech i'r 12 mis nesaf.

Byddwn yn ceisio deall sut gallai'r cyllid ychwanegol presennol ar gyfer gofal a gynlluniwyd ynghyd â'r gronfa drawsnewid gefnogi a thargedu camau gweithredu i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Byddai hyn yn helpu i gefnogi unrhyw argymhellion gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog a fydd yn cyfrannu at ein cynlluniau i sicrhau gwelliannau parhaus mewn gofal a gynlluniwyd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

3. Iechyd meddwl

Dadansoddiad o ddyraniadau i wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru, gan gynnwys dyraniadau at y dibenion a ganlyn:

- Cefnogi'r broses o weithredu strategaethau newydd iechyd meddwl ac atal hunanladdiad Llywodraeth Cymru;
- gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chanlyniadau i oedolion, plant a phobl ifanc.

Ymateb:

Strategaeth iechyd meddwl ac atal hunanladdiad

Rydym yn parhau i glustnodi cyllid iechyd meddwl ar gyfer y GIG ac, yn 2025-26, bydd y cyllid hwn yn fwy na £820m, gan gynnwys ein buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym hefyd wedi parhau i fuddsoddi mewn datblygiadau fel I11 a phwyso 2 ac opsiynau eraill yn lle derbyniadau sy'n elfennau allweddol o'n blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn buddsoddi £2.2m y flwyddyn yng Ngweithrediaeth y GIG ar y Rhaglen Strategol ar gyfer Iechyd Meddwl, sy'n adnodd pwrpasol i GIG Cymru sbarduno gwelliannau mewn perfformiad, ansawdd a diogelwch. Mae hyn yn rhan o'n rhaglen waith sylweddol i wella iechyd meddwl a llesiant, er enghraifft drwy ein Dull Ysgol Gyfan, NEST/NYTH a'n Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol.

Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiadau cryno ar iechyd meddwl a llesiant a strategaethau atal hunanladdiad a hunan-niweidio, mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu'r strategaethau a'r cynlluniau cyflawni terfynol.

Gan y bydd y strategaethau hyn yn pennu cyfeiriad polisi ar gyfer y deng mlynedd nesaf, mae'n hanfodol eu bod yn ymgorffori'r safbwyntiau a ddarperir yn ystod yr ymgynghoriad ac yn adlewyrchu'r cyd-destun polisi ehangach y byddant yn gweithredu ynddo. I gyflawni hyn, rhagwelir y bydd y cyhoeddiad yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol newydd rhwng 2025 a 2026.

Datblygwyd y strategaethau yn y cyd-destun ariannol presennol a'u nod yw darparu cyfeiriad i'r system er mwyn targedu adnoddau'n well ac nid ydynt yn dibynnu ar gyllid newydd / ychwanegol. Ochr yn ochr â'r strategaeth a gyhoeddwyd, bydd cyfres o gynlluniau cyflawni a fydd yn cael ei hadnewyddu dros oes y strategaeth. Bydd hyn yn gyfle i nodi buddsoddiadau newydd pe bai'r sefyllfa economaidd yn newid.

Gwella mynediad at wasanaethau a chanlyniadau

Rydym wedi defnyddio dull gweithredu pob oed i ddatblygu'r strategaethau iechyd meddwl a llesiant, a hunanladdiad a hunan-niweidio i sicrhau bod gennym system a fydd yn cefnogi pawb, a'i bod yn hyrwyddo gwell integreiddio rhwng gwasanaethau.

Er ei fod yn defnyddio dull gweithredu ar gyfer pob oed, mae'n nodi lle mae angen i ni ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc neu oedolion hŷn, ac mae ein dadansoddiad o'r ymgynghoriad wedi rhoi adborth ar sut gallwn gryfhau'r dull hwn o weithredu. Ond yr hyn sy'n hanfodol yn ein dull gweithredu yw bod angen i'n gwasanaethau gael eu harwain gan anghenion a chanolbwyntio ar yr unigolyn.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, fe wnaethom hefyd gyhoeddi asesiadau effaith drafft ac rydym wedi cynnig y cyfle drwy'r ymgynghoriad i ofyn a oedd yn glir sut mae'r Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed a'r Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant yn cyflawni ar gyfer pob grŵp oedran. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei defnyddio i gasglu rhagor o dystiolaeth o effaith yn y meysydd hyn ac mae'n sail i'r asesiadau effaith terfynol a'r cynlluniau / strategaethau cyflawni.

Rydym yn parhau i wella mynediad at gymorth iechyd meddwl, er enghraifft drwy 111 pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl, mynediad ar-lein at therapi gwybyddol ymddygiadol a threialu llochesi i blant a phobl ifanc.

Mae cysylltiad cryf rhwng dod i gysylltiad â thralod a thrawma yn ystod plentyndod, ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol gwaeth. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad presennol i ddatblygu gwasanaethau ACE a gwasanaethau sy'n ymwychu o drawma, a mabwysiadu arferion sy'n seiliedig ar drawma yn 2025-26 (£1m).

4. Gweithlu

Dyraniadau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a chynllun gweithredu cenedlaethol y gweithlu, gan gynnwys cyfeiriad penodol at gadw staff, a llesiant staff.

Ymateb:

Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd, cyhoeddodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Chwefror 2024 y bydd y buddsoddiad i addysgu a hyfforddi proffesiynau gofal iechyd yn cael ei gynnal ar £283.126m yn 2024-25. Bydd hyn yn cefnogi rhaglenni addysg a hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru. Mae hyn yn parhau i fod y lefel uchaf erioed o gyllid, a bydd yn helpu i gynnig y nifer uchaf erioed o gyfleoedd hyfforddi yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithlu sydd ei angen ar y GIG i ateb y galw cynyddol. Rydym yn cyflawni hyn drwy gynyddu nifer y lleoliadau hyfforddi, gan annog pobl ifanc i ddilyn proffesiynau iechyd, a recriwtio y tu allan i Gymru pan fo angen.

Yn 2025-26, rydym yn ymrwymo i gynyddu'r cyllid dros £20m i hyfforddi gweithlu'r GIG. Bydd hyn yn cynnwys cymorth parhaus i ehangu ysgol feddygol Gogledd Cymru a rhagor o leoliadau hyfforddi meddygol a deintyddol ôl-raddedig.

Rydym yn darparu cyllid craidd i Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC), ein corff gweithlu statudol, i gyflawni blaenoriaethau allweddol fel gwella lefelau cadw staff a chymryd camau cadarnhaol i wella llesiant staff. Er enghraifft, mae AaGIC wedi darparu Rhaglen Cadw Genedlaethol eleni ac mae wedi buddsoddi mewn penodi Arweinydd Cadw ym mhob sefydliad GIG. Mae Arolwg Staff GIG Cymru yn ei ail flwyddyn, a bydd y canlyniadau'n ein galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn meysydd hanfodol y mae angen eu gwella ac, yn y pen draw, darparu'r dysgu angenrheidiol i wella iechyd a llesiant staff ymhellach. Mae AaGIC hefyd yn defnyddio ei gyllid craidd i barhau i gyflawni'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r camau gweithredu sydd wedi'u neilltuo iddo yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu.

Yn 2016, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i ariannu cynllun cymhelliant wedi'i dargedu ar gyfer Hyfforddeion Meddygon Teulu a Hyfforddeion Seiciatreg Craidd. Roedd y cymhellion ariannol yn rhan o gyfres eang o gamau gweithredu i gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i ddenu a hyfforddi mwy o feddygon teulu ac i roi arferion cyffredinol ar sail fwy cynaliadwy.

Mae'r cynllun cymhelliant wedi'i dargedu presennol yn darparu £20,000 i feddygon teulu dan hyfforddiant sy'n ymgymryd â swydd hyfforddi yng ngogledd Cymru, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, gan fod y cynlluniau hyfforddi hyn yn tueddu i fod â chyfraddau llenwi isel; llai na 75 y cant dros gyfnod o bum mlynedd. Mae hyfforddeion yn cael £10,000 ar ddechrau eu hyfforddiant, gyda'r ail daliad yn cael ei wneud ar ôl iddynt gwblhau blwyddyn o ymarfer yn un o'r rhanbarthau dan sylw ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.

Ochr yn ochr â'r penderfyniad i barhau â'r cynllun cymhellion wedi'u targedu ym mlwyddyn ariannol 2025-26, cytunodd y cyn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd y dylid cynnal adolygiad a gwerthusiad llawn o'r cynlluniau presennol yn 2025 ynghyd ag argymhellion, gan gynnwys opsiynau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae swyddogion wrthi'n cwblhau'r trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol drwy broses gaffael ac maent yn sefydlu cylch gorchwyl yr adolygiad. Un o ystyriaethau'r adolygiad fydd mesur effeithiolrwydd y cynllun a phenderfynu, o ystyried y newid yn y cyd-destun, a yw'r cynllun yn dal yn briodol ac yn gweithredu fel cymhelliant recriwtio a chadw.

Rydym yn darparu £5m o gyllid canolog i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau recriwtio rhyngwladol GIG Cymru yn ystod 2024-25. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r broses o recriwtio tua 360 o nyrsys cofrestredig, 60 o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a 30 o feddygon.

5. Gofal sylfaenol

Sut bydd y gyllideb yn cefnogi'r broses o gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal sylfaenol, a symud mwy o ofal o ysbytai i leoliadau gofal sylfaenol/cymunedol.

Ymateb:

Ein gweledigaeth yn y cynllun *Cymru Iachach* yw bod pobl yn gallu cael gafael ar y rhan fwyaf o wasanaethau iechyd a gofal yn y cartref neu'n agos ato. Model Gofal Sylfaenol Cymru yw'r dull gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer gwireddu'r weledigaeth honno.

Mae Llywodraeth Cymru yn neilltuo rhywfaint o gyllid yn y dyraniadau cyllid craidd a wneir i Fyrddau Iechyd. Er enghraifft, rydym yn pennu lefel sylfaenol o gyllid ar gyfer pob un o'r gwasanaethau y mae Byrddau Iechyd fel arfer yn eu contractio gan ddarparwyr annibynnol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fferylliaeth Gymunedol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ac Optometreg.

Mae'r cyllid penodol arall a ddyrannwyd i feithrin capasiti gofal yn y gymuned yn cynnwys:

- Cronfa Integredig Ranbarthol £146.2m.
- £5m ar gyfer y capasiti gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.
- £11.95m ar gyfer capasiti nyrsio ardal, ar benwythnosau a diwedd oes a nodi'r rheini sydd mewn mwy o berygl o ofal brys, a chytuno ar gynlluniau gofal i ragweld a lleihau'r risg honno neu ddiwallu'r angen hwnnw gartref neu yn y gymuned.

Mae ailgydbwyso'r system iechyd a gofal oddi wrth ysbytai a thriniaeth at ofal yn y gymuned ac iechyd a llesiant yn un o nodau tymor hir polisi Llywodraeth Cymru.

Cydnabyddir yn eang bod yn rhaid gwella cyflymder a graddfa'r cynnydd yn wyneb yr heriau eithriadol a'r twf hysbys a ragwelir yn anghenion y boblogaeth.

Er mai'r uchelgais a nodwyd yn y polisi yw cynyddu buddsoddiad cymharol mewn gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty, mae effaith twf na ellir ei osgoi mewn costau o ran pwysau chwyddiant, a thwff na ellir ei osgoi yn y galw mewn meysydd fel meddyginiaethau a thriniaethau sydd wedi'u cymeradwyo gan NICE, yn fwy mewn lleoliadau aciwt. Ar ben hynny, o ystyried maint yr ôl-groniad adfer ar ôl COVID mewn perthynas â gofal a gynlluniwyd, mae buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â'r heriau hyn sy'n arwain at fwy o wariant mewn

Ileoliadau aciwt. Mae hyn, ochr yn ochr â'r angen i sicrhau mwy o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd i gefnogi cynaliadwyedd ariannol, yn arwain at heriau i gyflawni bwriad ac uchelgais y polisi hwn.

Er ei bod yn dal yn bwysig cyflwyno diwygiadau drwy Ofal Sylfaenol a Chymunedol, mae'r buddsoddiad mewn gwasanaethau dan gontract (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fferylliaeth Gymunedol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) wedi'i gyfyngu i ddyfarniadau cyflog staff sy'n gweithio yn y lleoliadau hynny. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol; gan gynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ehangu Capasiti Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a gwasanaethau nyrsio diwedd oes ac ardal.

Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres ddiwygiedig o gamau gweithredu ar gyfer *Cymru Iachach* er mwyn sbarduno buddsoddiad cyflymach a pharhaus o lawer mewn gwasanaethau yn y gymuned i roi'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru ar waith yn llawn.

Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG 2025-26 yn nodi bod meithrin gallu cymunedol yn un o flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i fod yn gyfrwng hanfodol i bartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, tai, y trydydd sector a phartneriaid ehangach ddod at ei gilydd i gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau integredig ac atebion system yn y gymuned. Bydd rheoliadau a chanllawiau statudol diwygiedig rhan naw, a gafodd eu gosod a'u pasio ym mis Tachwedd 2024, yn cryfhau'r trefniadau rhanbarthol hyn ymhellach ac yn egluro eu rôl o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cryfhau'r ffordd y mae'n dal y GIG i gyfrif am weithredu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Byddwn yn gofyn am dystiolaeth o sut mae Byrddau Iechyd yn cyflymu datblygiad y 60 Clwstwr. Gan ganolbwyntio ar y boblogaeth ar lefel gofal cymdogaeth sy'n seiliedig ar leoedd, mae Clystyrau yn feganweithiau partneriaeth unigryw i gynllunio a darparu gofal sy'n cyd-fynd yn well ag anghenion lleol.

Ar lefel sirol, mae Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau yn cysylltu Clystyrau â phartneriaethau ehangach y system iechyd a gofal cymdeithasol. Pan fydd Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau yn cael eu cefnogi a'u galluogi gan arweinwyr systemau iechyd a gofal, maent mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd y boblogaeth a gallant greu'r amgylchedd ar gyfer cydweithio i roi'r Model Gofal Sylfaenol ar waith yng Nghymru. Byddwn yn gofyn am dystiolaeth bod cyllid a phenderfyniadau yn cael eu dirprwyo i Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau.

6. Trawsnewid gwasanaethau

Sut bydd y gyllideb hon yn cydbwysu'r angen i ddiwallu pwysau uniongyrchol/tymor byr (er enghraifft, yr ôl-groniad o ran amseroedd aros, prinder gweithlu) gyda thrawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy.

Ymateb:

Wrth ddatblygu dull cyllidebol Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2025-26, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i gydbwysu'r angen i gydnabod y pwysau na ellir ei osgoi o ran chwyddiant a'r galw, cyflawni gwelliannau mewn blaenoriaethau tymor byr, a pharhau i gefnogi camau i drawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy.

Rydym yn parhau â'r gyllideb trawsnewid gofal a gynlluniwyd gwerth £15m i gefnogi prosiectau trawsnewid lleol a chenedlaethol. Rydym wedi buddsoddi mewn rhwydweithiau gweithredu sy'n cael eu harwain yn glinigol ar draws yr arbenigeddau allweddol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r prosiectau trawsnewid a'u rhoi ar waith yn sefydliadau'r GIG, gan adlewyrchu polisi a chanllawiau cenedlaethol.

O safbwynt gofal a gynlluniwyd, bydd £12.5m yn cefnogi prosiectau trawsnewid lleol a chenedlaethol a bydd £2.5 o'r gyllideb wreiddiol o £15m yn cael ei ddefnyddio i staffio'r Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd ac arweinwyr clinigol, sy'n gyfrifol am ddatblygu'r prosiectau trawsnewid a'u rhoi ar waith yn sefydliadau'r GIG, gan adlewyrchu polisi a chanllawiau cenedlaethol. Mae'r £2.5m hwn bellach wedi cael ei drosglwyddo i Weithrediaeth y GIG.

Yr hyn sy'n glir o'r twf parhaus mewn atgyfeiriadau a maint y rhestr aros yw'r angen am ddull trawsnewidiol o ymdrin â gwasanaethau gofal dewisol. Bydd angen i hyn, ochr yn ochr â'n ffocws ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd, fod y dull gweithredu ar gyfer unrhyw fuddsoddiad pellach yn y gyllideb yn 2025-26.

Gweithrediaeth y GIG sy'n cynnal y rhaglen genedlaethol Gofal a Gynlluniwyd ac mae wedi datblygu "rhaglen effeithiol ar gyfer gofal a gynlluniwyd" sy'n defnyddio'r rhaglen trawsnewid gofal a gynlluniwyd gwerth £15m i gefnogi'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau a defnyddio dull gweithredu clinigol i drawsnewid llwybrau gofal.

Mae'r cyllid hwn wedi'i rannu'n fras yn bedwar maes:

Rheoli atgyfeiriadau

Yn 2023-24, roedd dau fwrdd iechyd wedi rhoi rhaglen y gynghrair llwybrau ar waith. Yn 2024-25, mae chwech o'r saith bwrdd iechyd wedi cofrestru i weithredu gwaith y gynghrair llwybrau, gan ddatblygu a gweithredu llwybrau atgyfeirio cenedlaethol a lleol. Mae hyn wedi golygu bod 191 o lwybrau ar waith gyda'r nod o

gytuno ar 300 o lwybrau ledled Cymru ar gyfer gweithredu lleol. Mae gwerthusiad o effaith y system ar y gwaith hwn wrthi'n cael ei gwblhau. Mae'r Byrddau Iechyd a oedd yn gyfrifol am ganfod llwybrau ar gyfer y rhaglen hon wedi gweld cyfraddau cyfeirio is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae ganddynt dystiolaeth o atgyfeirio cost-effeithiol mewn profion llai diagnostig wedi'u targedu.

Mae pob bwrdd iechyd yn cymryd rhan yn Consultant Connect, sef gwasanaeth cyngor ac arweiniad electronig ar gyfer llwybrau gofal a gynlluniwyd a gofal brys. Mae'r gwasanaeth hwn wedi dangos (rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024) bod 52,000 o lwybrau'n cael eu rheoli gan gyngor ac felly'n cael eu dargyfeirio oddi wrth ymyriadau mewn ysbytai. Mae hyn yn cefnogi'r cysyniad o gyngor ac arweiniad, gan gadw gofal yn lleol lle bo hynny'n briodol yn glinigol.

Prosiectau trawsnewid cleifion allanol

Ym mis Medi 2024, cyfanswm nifer yr apwyntiadau a fynychwyd gan gleifion allanol oedd 307,816 (gan gynnwys apwyntiadau newydd, apwyntiadau dilynol, asesiadau cyn llawdriniaeth ac apwyntiadau anhysbys). Roedd hyn 8,454 (2.8 y cant) yn uwch na'r un mis y llynedd a 43,180 (16.3 y cant) yn uwch na'r un mis cyn y pandemig (Medi 2019). Mae'r rhaglen genedlaethol yn cefnogi'r gwaith o weithredu dulliau a mentrau arloesol sy'n cyfrannu at gamau trawsnewid cynaliadwy, fel dewis amgen yn lle apwyntiadau dilynol i gleifion allanol drwy lwybrau 'sylw yn ôl symptomau', apwyntiadau dilynol ar gais y claf, ac edrych ar lwybrau profi'n syth. Bydd manteisio i'r eithaf ar y dulliau hyn yn galluogi llwybr mwy effeithiol a bydd yn sbarduno gweithgarwch cyntaf cleifion allanol. Roedd cynnydd misol yn y llwybr apwyntiad dilynol ar gais y claf a'r llwybr sylw yn ôl symptomau rhwng mis Mehefin a mis Medi, ond mae amrywiad sylweddol o hyd, gyda chyfanswm y rhestr aros am apwyntiad dilynol yn amrywio gyda gostyngiad cyffredinol o ddau y cant ym mis Medi 2024 o'i gymharu â mis Mehefin 2024.

Cynhyrchiant theatrau

Gan adeiladu ar waith Get it Right First Time (GiRFT) yn 2023-24, cytunwyd ar set ddata genedlaethol i nodi meysydd i wella cynhyrchiant, lleihau dechrau'n hwyr, gorffen yn gynnar, gwella nifer yr achosion fesul rhestr, a manteisio ar slotiau gwag.

Mae cyfraddau cyfartalog achosion dydd i gael llawdriniaeth gyffredinol yn amrywio o 68.2 y cant i 34.7 y cant ac mae'n 55 y cant ar gyfer Cymru gyfan (Ionawr 2023 – Medi 2024). Os gellir cynyddu hyn ar draws pob safle, bydd yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau'r galw am welyau cleifion mewnol.

Ar sail data GiRFT, byddai'r posibilrwydd o ddefnyddio theatrau braenaru ar draws byrddau iechyd yn arwain at gyfleoedd i ddenu gweithgarwch ledled Cymru.

Ar gyfer offthalmoleg, mae achosion llawfeddygol yn para tua 70 munud ar gyfartaledd ac ar hyn o bryd mae 20 y cant o theatrau'n gorffen dros 60 munud cyn eu hamser gorffen dynodedig (Ionawr 2023 i fis Medi 2024). Yn seiliedig ar dros 40,000 o achosion yn ystod yr un cyfnod, gallai hyn arwain at 8,000 o driniaethau ychwanegol dim ond drwy gael gwared ar y rhai sy'n gorffen dros 60 munud yn gynnar.

Llawdriniaeth Lai Cymhleth Cyfaint Uchel

Mae pob rhwydwaith gweithredu clinigol yn hyrwyddo llwybrau yn seiliedig ar argymhellion GiRFT ar gyfer gweithredu sesiynau llawfeddygol cyfaint uchel yn genedlaethol. Bydd hyn yn cefnogi dull cenedlaethol o gynyddu capasiti a gweithgarwch mewn ychydig o lwybrau allweddol fel llawdriniaeth cataractau a rhai llwybrau llawdriniaeth cyffredinol.

Ailddylunio llwybrau gofal llygaid

Cefnogi'r gwaith o weithredu camau adfer a dulliau a mentrau arloesol sy'n benodol ar gyfer gofal llygaid. Mae ailddylunio llwybr gofal llygaid yn cysylltu ag optometreg gofal sylfaenol i gefnogi trefniadau'r contract newydd. Mae'r cynnig, sydd wedi dechrau yn chwarter tri, yn amcangyfrif trosglwyddo 35,000 o lwybrau offthalmoleg i ofal sylfaenol, gan ryddhau capasiti cleifion allanol brys gofal eilaidd.

Cyflwyno gwasanaethau aros yn iach

Mae pob bwrdd iechyd wedi dechrau gweithredu un pwynt cyswllt i ddarparu adnoddau penodol i bobl sy'n aros i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo cymorth ymddygiad iach
- Atal pobl rhag gwaethygu
- Paratoi ar gyfer triniaeth.

Y nod yw lleihau nifer y sesiynau theatr sy'n cael eu canslo'n hwyr oherwydd iechyd y claf a lleihau'r angen i ailadrodd asesiadau cyn llawdriniaeth. Mae tystiolaeth o hyn yn Hywel Dda, sydd wedi cael un pwynt cyswllt ers 2022.

Datblygiadau patholeg ddigidol

Patholeg Ddigidol - Breast Ibex AI

Parhau i adeiladu ar fanteision patholeg ddigidol drwy:

- 1. ymestyn gwerthusiad Breast Ibex AI i bob labordy ledled Cymru.*
- 2. cynnal astudiaeth beilot yn BIPBC i ddatblygu algorithm deallusrwydd artifisial newydd i frysbennu achosion arferol histoleg croen ar gyfer adrodd brys*

Wrth ddefnyddio deallusrwydd artifisial i flaenoriaethu achosion canser, mae gwell dealltwriaeth o strwythur a gweithrediaeth llwyfannau deallusrwydd artifisial pan fyddant yn cael eu datblygu'n fewnol i fynd i'r afael â heriau penodol. Er enghraifft, datblygu system lle bydd yr holl achosion arferol yn cael eu sganio

a'u harchwilio gan ddeallusrwydd artiffisial i nodi unrhyw achosion sydd â newidiadau cellog sy'n amheus o falaenedd a'u gwthio i'r llwybr brys.

B. Meddygaeth fanwl

Gwireddu manteision Meddygaeth Fanwl a llywio model cyllido a darparu yn y dyfodol i gynyddu arwyddion therapiau wedi'u targedu.

Costau: Y flwyddyn gyntaf £150,000 hyd at £200,000 ym mlwyddyn dau.

Dangosodd gwaith blaenorol fod costau allanoli i ddarparwr preifat yn Lloegr oddeutu £750,000 ar gyfer 300 o gleifion.

Manteision:

- Oedi datblygiad canser datblygedig
- Darparu triniaeth yn unol â chanllawiau NICE o fewn y terfynau amser a ddyrannwyd.
- Cynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael therapi wedi'i dargedu yn y 3ydd neu'r 4ydd llinell.
- Dim dadleoli gwaith Patholeg presennol er mwyn gallu cyflwyno gofynion Meddygaeth Fanwl.

7. Atal

A oes adnoddau wedi cael eu symud at atal/ymyrryd yn gynnar. Ble yn y gyllideb y gellir gweld hyn.

Ymateb:

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar wreiddio newid tuag at atal ac ymyrryd yn gynnar, fel yr amlinellir yn *Cymru Iachach*.

Mae'n dal yn wir bod atal yn hanfodol i amrywiaeth eang o weithgarwch ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a GIG Cymru, gan gefnogi pobl yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach.

Mae dwy ran i uchelgais y polisi i symud adnoddau oddi wrth leoliadau aciwt i leoliadau sylfaenol a chymunedol. Yn gyntaf adleoli gwasanaethau'n ffisegol, gan ddarparu gofal yn nes at adref. Bydd hyn yn arwain at symud y gwasanaeth, y gweithlu a'r adnodd perthnasol. Yn ail, bwriad y polisi yw buddsoddi mwy a mwy yn y meysydd hyn i gryfhau'r agenda atal, a symud y galw oddi wrth wasanaethau ysbytai. Mae'n heriol cyflawni'r uchelgais hon o ystyried effaith twf na ellir ei osgoi mewn cost o ran pwysau chwyddiant, ac mae'r twf na ellir ei osgoi yn y galw mewn meysydd fel meddyginiaethau a thriniaethau cymeradwy NICE yn fwy mewn lleoliadau aciwt.

Ar ben hynny, o ystyried maint yr ôl-groniad adfer ar ôl COVID mewn perthynas â gofal a gynlluniwyd, mae buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â'r heriau hyn sy'n arwain at fwy o wariant mewn lleoliadau aciwt. Mae hyn, ochr yn ochr â'r angen i sicrhau mwy o arbedion ac arbedion effeithlonrwydd i gefnogi cynaliadwyedd ariannol, yn arwain at heriau i gyflawni bwriad ac uchelgais y polisi hwn. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau i gryfhau gweithgarwch a buddsoddi mewn gweithgarwch atal.

Rydym wedi cynnal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol werthfawr gwerth £146.2m sy'n helpu'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu modelau gofal integredig a fydd yn helpu pobl i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, byw'n dda gartref, atal yr angen i gael eu cludo neu fynd i'r ysbyty a'u helpu i ddychwelyd adref yn gyflym os oes angen gofal eilaidd arnynt.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein strategaeth *Pwysau Iach: Cymru Iach* i fynd i'r afael â gorbwysau a gordewdra, gyda £2.9m yn cael ei ddrynnu i gefnogi byrddau iechyd i barhau i ddatblygu a chyflwyno eu llwybrau rheoli pwysau. Dyrannwyd £4.042m i gefnogi gweithgareddau eraill, fel ein dull system gyfan a chynlluniau peilot Plant a Theuluoedd sy'n gweithio ar draws holl ardaloedd byrddau iechyd.

Mae *Pwysau Iach: Cymru Iach* yn blaenoriaethu atal ac ymyrryd yn gynnar, gan ganolbwyntio ar annog newidiadau mewn ymddygiad iach. Mae'r strategaeth yn defnyddio dull trawslywodraethol o leihau gordewdra yng Nghymru ac mae wedi

cael ei datblygu yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, sy'n cyfuno newid ymddygiad unigol â newid amgylcheddol a newid yn y system.

Mae'r strategaeth yn cael ei chyflwyno gyda golwg gyfannol ar yr amgylchedd cyfan rydym yn byw ynddo, a sut mae hynny'n effeithio ar y dewisiadau rydym yn eu gwneud o ran bwyd a gweithgarwch, sy'n gofyn am ddull gweithredu trawslywodraethol a thraws-sefydliadol.

Bwriad y Grant Plant a Chymunedau yw mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r oedolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar, atal, a chefnogi. Nod y rhaglenni yn y grant hwn (gan gynnwys Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf) yw lliniaru neu ddileu anafanteision pobl agored i niwed i'w galluogi i gael yr un cyfleoedd mewn bywyd ag eraill, a chyfrannu drwy hynny at Gymru sy'n fwy cyfartal.

Mae ein rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu ymyriadau i helpu i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant; meithrin eu gwytnwch a'u hyder; a sicrhau llesiant cadarnhaol. Mae'r rhaglenni'n pwysleisio ar gymorth ac atal yn gynnar, a chefnogaeth wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd.

Mae ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn hyrwyddo systemau cymorth aml-asiantaeth ac mae'n gweithio gyda'r teulu cyfan, gan eu helpu i fynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt gyrraedd argyfwng. Mae'r model Tîm o Amgylch y Teulu yn casglu ynghyd gweithwyr proffesiynol o wahanol sectorau i gydweithio â theuluoedd, gan greu cynlluniau gweithredu wedi'u teilwra sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion unigryw.

Mae profiadau o blentyndod, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar, yn dylanwadu'n sylweddol ar iechyd a llesiant yn y dyfodol. Mae staff Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, ar y cyd â gweithwyr proffesiynol aml-asiantaeth eraill (fel rhan o ddull Tîm o Amgylch y Teulu), yn hanfodol i fynd ati'n gynnar i ganfod pryderon sy'n ymwneud â phrofiadau niweidiol a thrawma yn ystod plentyndod, a gallant chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o liniaru eu heffaith ar blant.

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rydym wedi cynnal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol werthfawr gwerth £146.2m ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n helpu'r sector iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu modelau gofal integredig a fydd yn helpu pobl i ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, byw'n dda gartref, atal yr angen i gael eu cludo neu fynd i'r ysbyty a'u helpu i ddychwelyd adref yn gyflym os oes angen gofal eilaidd arnynt.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael ei darparu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu'n gynnar i osgoi uwchgyfeirio a, thrwy fodel gofal cenedlaethol, canolbwytio ar gydlynw cymunedol ataliol, gan gefnogi gweithgareddau fel:

- Presgripsiynu cymdeithasol a helpu pobl i gysylltu â'r gwasanaeth cymorth sy'n lleol iddynt.
- Cymhorthion ac addasiadau i alluogi pobl i aros gartref yn hirach.
- Gwasanaethau Atal Cwypmipiadau
- Cymorth ataliol dan arweiniad y gymuned a ddarperir gan y trydydd sector.
- Gwasanaethau cyfeillio i leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.
- Darparu gwyliau byr i ofalwyr di-dâl.

Mae modelau gofal eraill hefyd yn cefnogi ymyrraeth gynnar ac maent yn cynnwys *Gofal cymhleth yn nes at adref* (helpu pobl i aros yn iach gartref ac atal yr angen i'w derbyn i'r ysbyty) a *Gofal Gartref o'r ysbyty* (helpu pobl i symud o'r ysbyty yn ôl yn nes at adref, i'w cymuned yn ddiogel ac yn gyflym gyda'r nod o atal y dirywiad niweidiol sy'n digwydd gydag arosiadau estynedig diangen yn yr ysbyty).

Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i atal pobl rhag cael eu cludo a'u derbyn i'r ysbyty, gan gadw pobl adref drwy amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth. Yn yr un modd, mae gweithgareddau a ariennir i gefnogi 'Cartref yn Gyntaf' drwy'r model Cartref o'r Ysbyty yn cefnogi rhyddhau cleifion yn gynnar i le o'u dewis. Ym mlwyddyn dau'r RIF (2023-24), roedd gwariant Cymru ar y tri model gofal hyn yn cynnwys:

- Cydlynu cymunedol ataliol - £ 32.3m
- Gofal cymhleth yn nes at y cartref - £ 20.6m
- Cartref o'r ysbyty - £ 33.9m

Disgwylir gwariant tebyg ym mlwyddyn tri (2024-25).

Brechiadau

Gellir gweld symudiad Llywodraeth Cymru at atal yn glir drwy uchelgeisiau'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol i hybu brechu fel adnodd iechyd cyhoeddus hanfodol sy'n atal salwch difrifol, ac yn diogelu pobl, cymunedau a'r GIG yng Nghymru.

Mae rhaglenni brechu sy'n cael eu cynnal gan fyrddau iechyd yn defnyddio eu dyraniad craidd i ddarparu rhaglenni sy'n bodoli'n barod. Mae'r rhain yn cwmpasu'r cyfnod rhwng genedigaeth a'r blynyddoedd hŷn. Mae rhagor o fuddsoddiad yn 2025 mewn clefydau y gellir eu hatal drwy frechu wedi'i gynllunio fel a ganlyn:

Ailddyrannu adnoddau i gaffael brechlyn fflw yn ganolog - £10.6m

Bydd y newid hwn yn helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n cael y brechlyn fflw tymhorol drwy sicrhau bod y cyflenwad a'r dosbarthiad yn cyd-fynd yn well â'r galw, a galluogi modelau darparu mwy effeithlon a mwy o gysondeb â gweithgareddau brechu eraill.

Buddsoddiad gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru i gefnogi'r broses ganolog o gaffael a dosbarthu brechlyn rhag y fflw - £0.5m

Buddsoddi cyllid rheolaidd ym Mhartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru i gefnogi logisteg caffael, cyflenwi a dosbarthu brechlyn y fflw, gan gynnwys gwasanaeth cludo iechyd.

Rhaglenni cynghori ar mpox/gonorea dan arweiniad JCVI - £1.43m

Bydd rhaglenni brechu rheolaidd newydd ar gyfer Mpox a Gonorea yn cael eu darparu gan y GIG yn 2025, a gyflwynir drwy wasanaethau iechyd rhywiol i atal clefydau heintus ac i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd drwy ddefnyddio llai o wrthfotigau.

Newidiadau i'r amserlen brechu plant - £0.3m

Newidiadau i'r rhestr o blant a'r brechlynnau a ddefnyddir i gynyddu'r nifer sy'n cymryd y brechlyn a darparu apwyntiad brechu ychwanegol i blant ifanc.

Brechlyn Feirws Syncytiol Anadlol - £1.85m

Parhau i gyflwyno rhaglenni brechlyn RSV newydd i oedolion hŷn ac amddiffyn babanod drwy frechu mamau.

Sgrinio

Mae buddsoddiad ychwanegol o £0.8m wedi'i neilltuo i ehangu gwasanaethau sgrinio yn 2025-26. Mae hyn yn ymwneud â rhaglen sgrinio'r coluddyn.

Mae sgrinio yn wasanaeth ataliol pwysig. Mae'n nodi cyflyrau yn gynnar, ar adeg pan fo'n haws eu trin mewn pobl heb symptomau. Felly, mae'n gwella canlyniadau iechyd ac yn osgoi ymyriadau a thriniaethau costus ar gam mwy datblygedig. Mae cyllid ar gyfer y rhaglenni sgrinio cenedlaethol wedi'i gynnwys yng nghyllideb graidd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddarparu rhaglenni sgrinio yn unol â chynghor Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU.

8. Ystadau a seilwaith

Dyraniadau cyfalaf a refeniw i ddatblygu, gwella a chynnal ystadau a seilwaith y GIG, gan gynnwys seilwaith digidol.

Ymateb:

Rydym yn parhau i fuddsoddi symiau sylweddol yn ystad y GIG ledled Cymru. Mae'r her o ddarparu GIG modern drwy ystad sy'n heneiddio ar draws GIG Cymru yn parhau i gael ei theimlo. Yn ystod 2024, mae cynnydd da wedi cael ei wneud i ddeall gofynion seilwaith sefydliadau'r GIG yn well. Bydd hyn yn helpu i gyfeirio'r cyfalaf sydd ar gael at y cynlluniau hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gleifion, staff ac ymwelwyr.

Er mwyn cynnal yr ystad bresennol, mae dal angen buddsoddiad sylweddol a bydd y cyfalaf a fydd ar gael i sefydliadau'r GIG fel cyllid dewisol i gefnogi'r gwaith o redeg yr adeiladau o ddydd i ddydd yn cynyddu yn 2025-26 o £83m i £100m. Can barhau i ganolbwyntio ar ddarparu ystad ddiogel sy'n cydymffurfio, mae £40m yn cael ei ddarparu i gefnogi buddsoddiad wedi'i flaenoriaethu ar draws y meysydd canlynol:

- Seilwaith Cyffredinol: £18m
- Diogelwch Tân: £5m
- Iechyd Meddwl: £5m
- Datgarboneiddio: £6m
- Rheoli ac Atal Heintiau: £3m
- Dihalogi: £3m

Y buddsoddiadau mwyaf sy'n cael eu cefnogi yn 2025-26 o hyd yw'r gwaith parhaus o adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful (cynllun gwerth £220m) a fydd yn golygu bod y safle'n cael ei drawsnewid yn y dyfodol gyda'r gwaith ar gyfer y cam hwn i fod i gael ei gwblhau ddiwedd 2026.

Yn 2025-26 bydd datblygiad y ganolfan orthopedig yn Ysbyty Llandudno yn cael ei gwblhau. Bydd hyn yn darparu manteision i gleifion, staff a chymuned ehangach gogledd Cymru drwy ddarparu 1,900 o driniaethau sydd wedi'u cynllunio bob blwyddyn. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y safle ac mae'n mynd rhagddo'n dda gyda'r disgwyliad y bydd y ganolfan yn gweld cleifion erbyn diwedd haf 2025.

Mae'r gwaith o adeiladu'r Uned Radiotherapi Lloeren yn Ysbyty Nevill Hall wedi mynd rhagddo'n dda yn 2024 ac mae disgwyl iddo weld ei glaf cyntaf ym mis Mai

2025. Mae'r datblygiad hwn yn allweddol i ddod â gwasanaethau oncoleg yn nes at gartrefi cleifion yn ne-ddwyrain Cymru.

Mae Canolfan Ganser newydd Felindre bellach yn mynd rhagddi'n dda ar y safle ac mae'n cael ei hariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Bydd y ganolfan newydd yn gweld ei chlaf cyntaf yn 2027 a fydd yn arwain at welliannau sylweddol i drigolion Cymru.

Bydd angen cyllid o hyd (ac mae'n cael ei ddarparu) i newid gorchudd y to yn Ysbyty Tywysoges Cymru, sy'n adlewyrchiad clir bod ystâd y GIG yng Nghymru yn heneiddio.

Mae presenoldeb Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn gofyn am fuddsoddiad parhaus ar draws dwy brif ysbyty yn GIG Cymru: Llwynhelyg a Nevill Hall. Mae'r gwaith hwn nad oedd wedi'i gynllunio, yn ei hanfod, yn dangos ymhellach rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â delio â'r ystad sy'n heneiddio.

Digidol, Arloesedd a Thechnoleg

Mae'r mentrau digidol rydym yn parhau i fuddsoddi ynddynt yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ddigidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, gan adlewyrchu nodau'r chwe chenhadaeth a amlinellir a safbwynt ein polisi sef 'gwell data, gwell gofal'.

Mae technoleg ddigidol yn gyfle digynsail i ni ail-lunio iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys gwella canlyniadau, diogelwch cleifion, sicrhau mwy o foddhad yn y swydd a chadw staff.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o rannu data'n well ar draws lleoliadau iechyd a gofal, gan sicrhau bod ein staff iechyd a gofal yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt pan fydd ei hangen arnynt, mae angen systemau critigol arnom a phrosesau rhannu data a chysylltedd gwell ar draws cofnodion iechyd electronig gofal sylfaenol ac eilaidd yn ogystal â systemau gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a gofal cymunedol. Mae buddsoddi'n canolbwyntio ar hanfodion yn y meysydd craidd hyn.

I gyflawni hyn, bydd angen partneriaethau cryf gydag endidau masnachol, y byd academiaidd a sefydliadau'r trydydd sector sy'n cyd-fynd â gwerthoedd ac egwyddorion pensaernïol agored GIG Cymru yn ogystal â ffocws newydd ar bensaernïaeth menter gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), sef y sefydliad digidol cenedlaethol sy'n gweithio ar y cyd â sefydliadau iechyd a gofal. Bydd cyllideb sylfaenol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer 25-26 yn fwy na £64m.

Heb y sylfeini digidol hyn, ni fyddwn yn gallu defnyddio technolegau mwy newydd fel deallusrwydd artiffisial.

Mae gwaith yn parhau i gyd-fynd ag un o'r pum thema hyn:

- Trawsnewid gwasanaethau digidol i gleifion a'r cyhoedd.

- Trawsnewid gwasanaethau digidol i weithwyr proffesiynol.
- Buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus.
- Moderneiddio dyfeisiau a symud i wasanaethau cwmwl.
- Diogelwch a chadernid seiber.

Mae'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) yn cael ei defnyddio i ariannu cyfleoedd trawsnewid digidol strategol yn GIG Cymru, a'i bwriad yw cefnogi'r dasg o newid gwasanaethau GIG Cymru. Yn 2025-16, byddwn yn cynyddu'r buddsoddiad yn ein blaenoriaethau digidol £15m.

Cronfa DPIF yn 2025-26 yw £30m ar gyfer cyfalaf a £57.8m ar gyfer Refeniw. Byddwn yn sicrhau bod y gronfa'n cael ei dyrannu'n ddigonol rhwng sefydliadau cenedlaethol a lleol i adlewyrchu'r rôl hollbwysig y mae timau digidol byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth gyflawni polisi cenedlaethol.

Byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o gyflymu'r storfa ddata gofal ar y llwyfan Adnoddau Data Cenedlaethol a fydd yn rhan annatod o'n pensaernïaeth data a byddwn yn cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael ar Ap GIG Cymru drwy fap manylach sy'n ehangu y tu hwnt i ddarpariaeth bresennol gwasanaethau gofal sylfaenol.

Mae Mamolaeth Ddigidol Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth a ariennir am sawl blwyddyn i ddarparu cofnod mamolaeth arbenigol sydd ar gael ar draws GIG Cymru ynghyd ag ap i ddinasyddion. Mae sefydliadau GIG Cymru ar y trywydd iawn i'r dechnoleg fod ar gael i staff, mamau a phobl sy'n geni yn unol â'r bwriad erbyn diwedd 2025-26. Bydd cynyddu'r dyraniad o gyllid lleol yn erbyn cyllid cenedlaethol yn cefnogi hyn, gan aros o fewn y gyllideb gyffredinol y cytunwyd arni ar gyfer y rhaglen.

Mae mentrau eraill a ariennir am sawl blwyddyn yn cynnwys y rhaglen presgripsiynu a gweinyddu meddyginiaethau yn electronig (ePMA) gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau GIG Cymru yn symud i flwyddyn dau a'r cyfnod cyflawni. Ar ben hynny, mae cyllid dros sawl blwyddyn yn cwblhau'r gwaith o ddisodli systemau diagnostig hanfodol RISP, y system radioleg a LIMS, a phroffion labordy, pethau nad yw ein hysbytai'n gallu gweithredu hebddynt.

Dyrannwyd cyllid iechyd meddwl i gefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg oherwydd statws mesurau arbennig y gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae Uned Seibergadernid GIG Cymru yn parhau i ddiogelu gwybodaeth cleifion, gan sicrhau diogelwch ein seilwaith digidol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal ymddiriedaeth ein dinasyddion. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24 cafodd dros £22m o gyfalaf ei fuddsoddi mewn mentrau gwella seiber ac mae unrhyw gyfalaf dros ben yn parhau i ystyried seilwaith digidol a lliniaru seiber mewn byrddau iechyd fel maes blaenoriaeth uchel.

Rydym wedi gweld dros ein hunain y manteision a'r arbedion cost y mae buddsoddi mewn mamolaeth digidol, Ap y GIG, ePMA a data cysylltu ar draws lleoliadau gofal wedi'u darparu yn Lloegr a gwledydd iechyd tebyg eraill. Mae hyn yn dangos pam ein bod yn ceisio cyflawni yng Nghymru i ddiwallu anghenion ein dinasyddion ac yn ceisio defnyddio dull ystwyth i gyflymu trawsnewid digidol.

9. Anghydraddoldebau iechyd I

Tystiolaeth o ddull trawslywodraethol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a phenderfyniadau ehangach iechyd, a bod 'iechyd y boblogaeth' yn ystyriaeth ar draws cyllidebau adrannau'r llywodraeth.

Ymateb:

Rydym yn cynnal ein cyllid ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, sef £146.2m. O fewn hyn, mae'r Gwasanaeth Cymunedol Integredig yn datblygu modelau meithrin gallu ac atal yn benodol ar gyfer y grwpiau poblogaeth allweddol canlynol;

- Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia
- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- Gofalwyr Di-dâl
- Pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol
- Pobl ag anghenion llesiant emosiynol ac iechyd meddwl.

Dechrau'n Deg

Mae gan ein rhaglen blynyddoedd cynnar sydd wedi'i thargedu, sef Dechrau'n Deg, ddull integredig ac mae'n cynnwys pedair elfen graidd:

- gofal plant o ansawdd sy'n cael ei ariannu'n llawn
- cymorth magu plant
- cymorth dwys i ymwelwyr iechyd
- cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC).

Mae hybu negeseuon allweddol ynghylch iechyd y cyhoedd a ffordd iach o fyw yn rhan allweddol o gymorth iechyd ychwanegol Dechrau'n Deg sy'n cael ei gynnig gan ymwelwyr iechyd a'r gweithlu ehangach.

Mae data darpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer 2023-24 yn dangos bod 41,328 o blant wedi elwa o wasanaethau Dechrau'n Deg, sef tua 35 y cant o'r plant dan

bedair oed yng Nghymru ac mae 17 y cant yn uwch na 2022-23.

Lleferydd, iaith a Chyfathrebu

Amcangyfrifir bod gan 10 y cant o'r holl blant yn y DU anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC) tymor hir a pharhaus. Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n byw mewn tlodi yn dioddef yn anghymesur o oedi dros dro o ran sgiliau iaith cynnar. Mae sgiliau iaith yn ffactor hanfodol yn y cylchoedd sy'n pontio'r cenedlaethau ac meant yn gallu gwneud i dlodi barhau wrth i sgiliau cyfathrebu gwael gael eu trosglwyddo o riant i blentyn. Mae ein buddsoddiad parhaus mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy Dechrau'n Deg a'n dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy'r cynllun cyflawni Siarad â Fi yn dangos sut rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a phenderfynyddion iechyd ehangach.

Y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

Mae ein rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i chynllunio i wella canlyniadau i fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig i'r rheini sy'n byw mewn tlodi. Mae'n pwysleisio ar gymorth cynnar ac atal, ac mae'n darparu cefnogaeth i'r teulu cyfan. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r teulu i atal problemau rhag gwaethygu a throi'n argyfwng.

Mae'r rhaglen gynhwysol hon yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau, gan bwysleisio ar gymorth, atal a chefnogaeth gynnar i annog teuluoedd hapus, cydnherth, wedi'u grymuso ac annibynnol.

Gall y cymorth a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy Teuluoedd yn Gyntaf amrywio gan ei fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion y boblogaeth. Gall gynnwys mentrau sy'n canolbwyntio ar faeth, sgiliau coginio, a phwysigrwydd gweithgarwch corfforol, gan sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iachach o ran ffordd o fyw.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wreiddio arferion iechyd a llesiant mewn ysgolion, lleoliadau gofal plant a mannau cymunedol.

Drwy feithrin amgylcheddau lle mae arferion iach yn cael eu hannog a'u normaleiddio, rydym yn gosod y sylfaen ar gyfer ymddygiad iach gydol oes.

Mae mentrau fel rhaglenni maeth mewn ysgolion, cynlluniau chwarae gweithredol, a gweithgareddau ffitrwydd teuluol yn hanfodol i lywio canlyniadau iechyd ein dinasyddion.

10. Anghydraddoldebau iechyd II

Sut mae effaith dyraniadau cyllid ar wahanol grwpiau/cymunedau wedi cael ei hystyried wrth ddatblygu cynigion y gyllideb.

Ymateb:

Mae effaith dyraniadau cyllid ar gydraddoldeb, ar y Gymraeg ac ar wahanol grwpiau/cymunedau wedi cael ei hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, yn ogystal â thrwy ddrafftio asesiadau effaith ategol fesul meysydd polisi unigol.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, rydym wedi ceisio lliniaru'r effeithiau mwy difrifol ar wasanaethau rheng flaen, gofal cleifion, mynediad a thargedau perfformiad, gan geisio cefnogi ein poblogaethau mwyaf agored i niwed. Fodd bynnag, mae'n sicr y bydd byrddau iechyd yn parhau i wynebu penderfyniadau y mae'n anodd eu rheoli o fewn eu cyllidebau unigol. Bydd pob penderfyniad gan fyrdau iechyd hefyd yn destun asesiad o'r effaith ar ansawdd ac mae pob bwrdd iechyd yn wynebu heriau gwahanol o ran anghenion y boblogaeth a ffurfweddiad gwasanaethau. Bydd y camau a gymerir i reoli costau cyllidebau yn amrywio yn ôl sefydliad a byddant yn destun penderfyniad lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi pwyslais cryf ar degwch a chynhwysiant ym maes iechyd a gofal. Mae hyn yn golygu sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad at yr un gofal iechyd o ansawdd uchel, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Mae *Cymru Iachach* – ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol – wedi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd fel thema graidd sy'n rhedeg drwy'r cyfan. Mae rhan o'n gwaith yn cynnwys sefydlu Grŵp Anghydraddoldebau Iechyd y GIG, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru, i ganolbwyntio a sbarduno ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy lens y GIG.

Mae gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn gosod Dyletswydd Ansawdd ar Weinidogion Cymru a chyrrff y GIG i ganolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaethau iechyd a chanlyniadau cyfartal o ran iechyd y boblogaeth drwy'r amser. Bydd datblygu Datganiadau Ansawdd mewn meysydd sy'n benodol i wasanaethau yn helpu byrddau iechyd i gynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau ynghylch adnoddau i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu darparu ar draws y boblogaeth gyfan.

Iechyd Menywod

Ar 10 Rhagfyr, lansiwyd Cynllun Iechyd Menywod Cymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut bydd y GIG yn cyflawni uchelgeisiau'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched ac yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd sy'n wynebu menywod ar hyn o bryd drwy gamau gweithredu clir i wella'r broses o

ddarparu gwasanaethau. Bydd £3 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Iechyd Menywod o fis Ebrill 2025 ymlaen i gyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun, gan ganolbwyntio'n benodol ar sefydlu canolfannau iechyd braenaru i fenywod ym mhob bwrdd iechyd.

Grant Plant a Chymunedau

Mae gennym gyllid wedi'i ddiogelu ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau sy'n cefnogi anghenion y plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau ymyrryd yn gynnar a chymorth atal. Mae hyn yn cynnwys:

- **Dechrau'n Deg** sy'n cefnogi'r 1,000 diwrnod cyntaf gan fod y dystiolaeth yn dangos bod y cyfnod hwn yn dylanwadu'n sylweddol ar y canlyniadau i blant a'u teuluoedd. Mae Dechrau'n Deg yn cynnwys cymorth dwys i ymwelwyr iechyd a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'r holl blant a theuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gymwys i gael lefel uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd. Y teuluoedd hynny sydd â'r lefel uchaf o angen sy'n cael y gefnogaeth fwyaf dwys. Mae datblygiad sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hanfodol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant yn effeithio ar amrywiaeth eang o ganlyniadau, gan gynnwys ymddygiad, iechyd meddwl a chyflogadwyedd.
- Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi canlyniadau gwell i fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Mae'r cymorth yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion y boblogaeth sy'n caniatáu i wasanaethau gael eu teilwra i ddiwallu anghenion penodol cymunedau. Drwy ei ddull cynhwysfawr ac amlasiantaethol, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn helpu i greu teuluoedd iachach a chymunedau cryfach, gan leihau gwahaniaethau iechyd a rhoi hwb i lesiant cyffredinol.

11. Iechyd Menywod

Sut bydd y gyllideb yn cefnogi iechyd menywod, gan gynnwys manylion y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi cyfnod cyflawni 10 mlynedd y cynllun iechyd menywod.

Ymateb:

Bwriad y Cynllun Iechyd Menywod yw rhoi glasbrint i'r GIG yng Nghymru ar gyfer gweithredu'r Datganiad Ansawdd a chanlyniadau gwaith y cam Darganfod.

Mae'r Cynllun yn nodi'r meysydd y disgwylir i'r GIG yng Nghymru eu blaenoriaethu ar gyfer gwella. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- Iechyd Mislif
- Endometriosis ac Adenomyosis
- Dulliau Atal Cenhedlu, Atal Ôl-enedigol a Gofal Erthylu
- Iechyd Cyn Cenhedlu
- Anymataliaeth ac Iechyd y Pelfis
- Menopos
- Trais yn erbyn Menywod a Merched
- Heneiddio'n Dda a Chyflyrau Hirdymor yn ystod Cwrs Bywyd

Mae'r Cynllun yn nodi camau gweithredu ar gyfer pob un o'r meysydd hyn ac maent yn cael amserlenni cyflawni tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

Bydd y gwaith o gyflawni camau gweithredu'r Cynllun yn dechrau ym mis Ionawr 2025. Can barhau â'r dull sy'n cael ei arwain gan y GIG o ddatblygu'r Cynllun fel y sbardun i wella'r ffordd mae gwasanaethau iechyd menywod yn cael eu darparu, bydd Gweithrediaeth y GIG yn gyfrifol am gyflawni ei chamau gweithredu.

Mae nifer o gamau gweithredu tymor byr wedi'u nodi yn y Cynllun. Bydd y ffocws cychwynnol ar y camau gweithredu canlynol:

- Canolfannau Iechyd Menywod

- **Gwefan Iechyd Menywod** i gasglu gwybodaeth am faterion iechyd menywod mewn un lle y gellir ymddiried ynddo;
- **Manteisio ar bob cyswllt (MECC) – Iechyd Mislif a'r Menopos:** dylai clinigwyr fanteisio ar y cyfle i holi menywod am iechyd mislif a'r menopos fel rhan o'r pwyntiau cyffwrdd presennol;
- **Ymchwil Iechyd Menywod** i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol;
- **Iechyd y Pelfis ac Ymataliaeth:** darparu mynediad at wybodaeth o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth am iechyd y pelfis ac iechyd amenedigol (gan gynnwys fideos), drwy wefan iechyd menywod GIG Cymru ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth;
- **Endometriosis ac Adenomyosis:** darparu addysg a hyfforddiant i bob ymarferydd gofal iechyd ar endometriosis ac adenomyosis fel cyflwr cronig a sicrhau bod cleifion yn cael gofal amlbroffesiwn gan gynnwys mynediad at gymorth iechyd meddwl digonol.

Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod y maes allweddol canlynol yn cael ei oruchwyllo:

- **Gwreiddio Lleisiau Menywod:** bydd y cynllun yn gosod disgwyliad i fyrddau iechyd gynnwys menywod, a'r rheini sydd â phrofiadau o fyw a dysgu'n lleol, yn y broses o'i roi ar waith. Mae hyn yn allweddol i gyflawni'r Cynllun yn effeithiol gan y bydd yn dibynnu ar wrando ar leisiau menywod yng Nghymru drwy nodi a gwreiddio technegau ac ymddygiadau sy'n sicrhau bod lleisiau menywod a merched yn cael eu clywed ym mhob rhyngweithiad gyda'r GIG.

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 yn cynnwys dyraniad uwch o £3m ar gyfer Iechyd Menywod a fydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi costau sefydlu a gwerthuso Canolfannau Iechyd Menywod.

12. Asesu effaith/gwerth am arian

Y mecanweithiau sydd ar waith (o fewn y system iechyd a gofal ac ar lefel Llywodraeth Cymru) i asesu a yw gwariant gan ymddiriedolaethau /byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cyflawni ei nodau ac yn sicrhau gwerth am arian. Beth/ble mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yw'r prif heriau wrth asesu canlyniadau/gwerth am arian.

Ymateb:

GIG

Mae gan y GIG brosesau ers tro sy'n adrodd ar berfformiad a monitro ariannol. Mae tîm Cyllid Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn craffu ar wybodaeth o adroddiadau ariannol yn fisol ac yn flynyddol.

Mae hyn yn cael ei gefnogi gan dîm Cyflawni a Chynllunio Ariannol Gweithrediaeth y GIG sy'n gweithio gyda'r GIG i helpu'r Llywodraeth i gefnogi darpariaeth a chynaliadwyedd ariannol yn y GIG, ochr yn ochr â chynyddu effaith a defnydd gwariant iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi mynd ar drywydd agenda ansawdd a diogelwch integredig, gan ganolbwyntio ar sut mae'r GIG yn defnyddio ei adnoddau a'r canlyniadau y mae'n eu cyflawni i nodi cyfleoedd i wella.

Fel rhan o'r Fframwaith Adfer a Monitro Uwch ar gyfer Systemau yn 2023-24, cafodd y Grŵp Defnyddio Adnoddau ei ail-lunio ar ffurf Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru, sy'n cyfarfod bob mis. Mae'r Bwrdd yn sbarduno dull systematig o gryfhau gweithio ar draws systemau, i gyflawni camau gweithredu, i sicrhau gwelliannau ariannol, ac i ddarparu gofal iechyd mwy cynaliadwy yn gyson.

Yr egwyddor yw bod y Bwrdd a'r gwaith ategol yn gyrru dull cenedlaethol cryfach i gefnogi ac ategu trefniadau cynllunio a darparu lleol er mwyn gwella prosesau adnabod, datblygu a defnyddio cyfleoedd ar gyfer gwelliannau ariannol yn ystod y flwyddyn ac yn rheolaidd ar draws GIG Cymru.

Mae gwaith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at yr amrywiadau ar draws sawl maes arwyddocaol o ran defnyddio adnoddau a chyfleoedd i wella. Mae gwaith y Bwrdd yn canolbwyntio ar y prif feysydd defnyddio adnoddau yn y GIG, sef y gweithlu, CHC, caffael a heb fod yn ymwneud â chyflog, meddyginiaethau, ac amrywiad clinigol. Mae gwaith y grŵp wedi cefnogi'r broses o ganfod amrywiadau a chyfleoedd i wella er mwyn gallu parhau i gyflawni mwy o arbedion ac effeithlonrwydd.

Ar ben hynny, mae'r fframwaith hwn hefyd yn cefnogi gwaith Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, a'r dull Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yn GIG Cymru i helpu i wella canlyniadau cleifion mewn perthynas â chostau. Mae hyn yn cynnwys diffinio ymyriadau gwerth uchel ar draws llwybrau mewn gwahanol feysydd cyflwr, sy'n cefnogi gwell gwerth am arian a gwelliannau o ran defnyddio adnoddau, a hefyd gwell canlyniadau clinigol a phrofiad cleifion. Cefnogir y gwaith hwn gan holl Fyrddau Iechyd GIG Cymru.

Bydd rhagor o gyfleoedd i safoni dulliau a llwybrau yn parhau i gael eu datblygu. Can ddefnyddio'r rhaglenni cenedlaethol strategol yng Nghymru, mae'r GIG a Llywodraeth Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid a chydweithwyr clinigol i wreiddio arferion gorau a dulliau gwerth am arian.

Mae cyflwyno dull gweithredu unwaith i Gymru ym mhob ardal yn dal i fod yn her oherwydd yr amrywiadau yn iechyd y cyhoedd ar draws gwahanol gymunedau, a hefyd bydd argaeledd gweithlu mewn rhai ardaloedd yn cyfyngu ar ddull gweithredu safonol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu materion cynaliadwyedd pellach wrth ddarparu gwasanaethau a nodi cyfleoedd i ddileu'r ffactorau sy'n sbarduno costau gormodol yn y meysydd heriol hyn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwella ac wedi gwreiddio ein fframweithiau cynllunio a darparu gyda'r GIG. Mae hyn wedi cynnwys canolbwyntio ar nifer o feysydd i gyflawni gwelliannau mewn cynaliadwyedd ariannol, er enghraifft, gweithredu mentrau a blaenoriaethau sy'n ymwneud â'r rhaglen Ei Gael yn lawn y Tro Cyntaf (GIRFT) fel apwyntiadau dilynol ar gais y claf mewn gofal a gynlluniwyd a gweithredu dull gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth mewn nifer o feysydd cyflyrau, i wella canlyniadau wrth gymharu â'r adnoddau a ddefnyddir. Mae'r Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru, a gynhelir gan Weithrediaeth y GIG, hefyd yn darparu capasiti a chymorth i Fyrddau Iechyd Lleol wrth ddarparu gweithgarwch gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth a fydd yn gwella canlyniadau i'n poblogaeth.

Dechrau'n Deg

Rydym newydd ddechrau ar werthusiad tair blynedd o'r Rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n cynnwys gwerthuso effaith Dechrau'n Deg. Rydym hefyd yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i gyflwyno data Dechrau'n Deg i'r gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ac rydym yn bwriadu defnyddio'r data hwn i ddadansoddi effaith. Rydym yn bwriadu dangos canlyniadau tymor hir y rhaglen Dechrau'n Deg i helpu'r rheini yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Gofal Cymdeithasol

Bwriad buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn gofal cymdeithasol yw cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol drwy fuddsoddi mewn agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau. Mae buddsoddiad o'r fath yn amodol ar gytundebau grant unigol sy'n cynnwys darpariaethau cymesur mewn perthynas ag asesu canlyniadau a gwerth am arian.

Mae bron y cyfan o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei ariannu drwy'r setliad refeniw cyffredinol heb ei neilltuo ac adnoddau'r awdurdodau lleol eu hunain o'r dreth gyngor, ffioedd a thaliadau, a mathau eraill o incwm. Mae'r gwariant hwn mewn perthynas â gofal cymdeithasol dan reolaeth awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys pennu'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer y gwariant hwnnw a'r asesiad cysylltiedig o werth am arian, o fewn gofynion darpariaethau statudol perthnasol. Mae gofynion sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol (fel drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) a darpariaethau mwy cyffredinol, sy'n sefydlu neu'n diweddar Llywodraeth Leol yng Nghymru (fel yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) ac sy'n gosod y fframwaith y mae awdurdodau lleol yn gweithredu o'i fewn ac yn atebol iddo. Drwy hyn, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod fframwaith cyffredinol o sicrwydd a rheolaeth ar gael yn lleol a chenedlaethol.

Dyma brif elfennau'r fframwaith hwn:

- gofynion ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd lleol, ar graffu ac ar berfformiad
- gofynion ar gyfer archwiliad allanol
- cyhoeddi data (fel Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol) i alluogi tryloywder lleol a chenedlaethol, monitro a chraffu ac arolygu drwy Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd gyffredinol i sicrhau gwasanaethau darbodus, effeithiol ac effeithlon y mae'n rhaid i Awdurdodau eu hadolygu'n gyson (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Yn yr un modd, er mwyn darparu ar gyfer diwylliant cyffredinol lle mae cynghorau yng Nghymru yn ceisio gwneud yn well drwy'r amser, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i fynnu bod yn rhaid i Gynghorau adolygu eu perfformiad drwyddi draw. Mae hyn yn cynnwys mynnu eu bod yn ceisio barn dinasyddion ac yn cyhoeddi hunanasesiad blynyddol o ba mor effeithiol maent yn cyflawni eu swyddogaethau. Hefyd, rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau o bryd i'w gilydd bod asesiad panel o'i berfformiad yn cael ei gynnal. Mae craffu ar lefel leol yn elfen hanfodol o'r sicrwydd hwn, yn ogystal â chraffu sy'n benodol i awdurdodau lleol, a chafodd y rôl hon ei chryfhau ar gyfer pob gwasanaeth drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am archwilio cyfrifon awdurdodau lleol a'u gwerth am arian. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar gyllidebau a gwariant gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill awdurdodau lleol bob blwyddyn. I ategu hyn, mae darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei monitro, yn fisol, drwy adroddiad Pwynt Gwirio Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn darparu, er enghraifft, data ynghylch nifer y cysylltiadau, y nifer sy'n gysylltiedig â diogelu, asesiadau, plant ac oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth, a phlant sy'n derbyn gofal. Ategir hyn ymhellach gan ddata mesur gweithgarwch a pherfformiad y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Mae data o'r fath yn ased pwysig o ran deall amgylchedd gofal cymdeithasol yn lleol ac yn genedlaethol, ac mae'n cael ei

ddefnyddio i asesu nifer y bobl y mae awdurdodau lleol yn darparu gofal a chymorth iddynt a'r galw ar wasanaethau a swyddogaethau penodol. Mae hefyd yn adnodd y gall awdurdodau lleol ei ddefnyddio i fonitro eu gallu i gyflawni yn erbyn gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adroddiad ar ddata mesur gweithgarwch a pherfformiad y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol. Mae'r data hwn yn rhoi crynodeb blynyddol o weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru.

Ategir yr uchod gan drefniadau i ystyried gweithrediadau, effeithlonrwydd ac ati adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy'r rheoleiddiwr, Arolygiaeth Gofal Cymru.

13. Perfformiad a chynlluniau ariannol y Bwrdd Iechyd

Yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd, gan gynnwys y canlynol:

- y sefyllfa ariannol a ragwelir ar gyfer byrddau iechyd ar ddiwedd y flwyddyn 2024-25, a pha fyrddau iechyd sy'n rhagweld y byddant yn torri eu dyletswyddau ariannol statudol i sicrhau eu bod yn adennill costau dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25 ac i sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogol ar gyfer eu cynlluniau tymor canolig integredig yn y cyfnod rhwng 2024 a 2027
- pa fyrddau iechyd sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn yn 2024-25; maint y cymorth hwnnw a'r cyfnod arfaethedig; ynghyd â chadarnhad o unrhyw gyllid sy'n cael ei ddal yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol sydd heb gael ei ddyrannu eto neu sy'n cael ei ddal i dalu am orwariant
- copi o'r llythyr a roddwyd i Fyrddau Iechyd Lleol i'w ddefnyddio wrth iddynt baratoi eu cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025 i 2028, os na chaiff hwn ei gyhoeddi erbyn i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor
(Yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, roedd yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd yn cyhoeddi copi o'r llythyr a gyhoeddodd i Fyrddau Iechyd i'w ddefnyddio wrth baratoi eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Lle bo'n berthnasol, dylai wneud hyn yn flynyddol, ochr yn ochr â chyhoeddi dogfennau cyllideb drafft eraill Llywodraeth Cymru. Yn ei hymateb, cytunodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i wneud hynny wrth symud ymlaen.)
- manylion dyraniadau'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer 2025-26, a gyhoeddir bob blwyddyn o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru, os yw'r llythyrau wedi cael eu cyhoeddi i Fyrddau Iechyd Lleol ond heb

eu cyhoeddi ar yr adeg y cyflwynir y dystiolaeth i'r Pwyllgor

- manylion am sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda byrddau iechyd i adfer cydbwysedd ariannol GIG Cymru.

(Mae cyfrifon 2023-24 yn dangos nad oedd yr un o'r Byrddau Iechyd Lleol wedi cyflawni'r ddyletswydd ariannol statudol gyntaf o dan Ddeddf Cyllid y GIG 2014 (y 'Ddeddf') i fantoli'r gyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd: roedd pob un wedi adrodd ar orwariant cronrus yn erbyn terfyn dyrannu adnoddau refeniw 2021-22 i 2023-24. Dyma'r tro cyntaf i bob Bwrdd Iechyd Lleol beidio â mantoli'r gyllideb dros gyfnod o dair blynedd ers rhoi'r Ddeddf ar waith. Gyda'i gilydd, roedd Byrddau Iechyd Lleol wedi gorwario £185 miliwn yn 2023-24, gyda gorwariant cronrus o £385.3 miliwn dros y tair blynedd).

Ymateb:

Yr wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol 2024-25

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi fframwaith dyrannu clir ar gyfer cyrff y GIG yn 2024-25, ochr yn ochr â disgwyliadau clir o ran cyflawni, a disgwyliadau o ran gwella ariannol.

Roedd y cynlluniau a gyflwynwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol hon gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cyfuno sefyllfa o ddiffyg o £220m. Cyflwynodd holl sefydliadau eraill y GIG gynlluniau â chydbwysedd ariannol. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg oedd yr unig Fwrdd Iechyd i gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig â chydbwysedd ariannol ar gyfer 2024-2027.

Fel ym Mis 7, mae'r diffyg cyfunol a ragwelir ar gyfer y GIG yn cael ei gofnodi fel £220.0m, fel y nodir isod:

Sefyllfa diwedd blwyddyn rhagolwg Mis 7

Sefydliad	Gwarged / - Diffyg £000oedd
Bae Abertawe	-50,100
Aneurin Bevan	-47,856
Betsi Cadwaladr	-19,761

Caerdydd a'r Fro	-15,900
Cwm Taf Morgannwg	0
Hywel Dda	-64,000
Powys	-22,948
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	0
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	0
Iechyd Cyhoeddus Cymru	0
Felindre (gan gynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)	524
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	0
GIG Cymru	-220,041

Yn yr un modd â mis 7, mae sefydliadau'r GIG yn rhagweld y byddant yn cyflawni eu cynlluniau ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynllunio ar y sail y bydd Byrddau Iechyd yn cyflawni'r cynlluniau y maent wedi'u nodi. Mae'r diffyg cyfunol hwn o £220m yn cael ei wrthbwysu gan gamau arbedion rheolaidd gwerth £168m a gafodd eu nodi a'u cyflawni'n llawn yn y Prif Grŵp Gwariant, sydd wedi cael eu trafod drwy gyllidebau yn 2024-25, a chatau gweithredu eraill gwerth £52m a nodwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni Prif Grŵp Gwariant cytbwys sy'n lliniaru'r lefel hon o ddiffyg. Fel ym mis 7, mae'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhagweld cydbwysedd ariannol, ond gyda nifer fach o eitemau risg uchel sylweddol i'w lliniaru, gan gynnwys cyflawni sefyllfa ddisgwyliedig y GIG.

Ym mis Tachwedd 2024, fe wnaethom gytuno i ddyrannu cyllid ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol o'r cyllid a gedwir yn y Prif Grŵp Gwariant i gefnogi sefyllfa'r GIG yn 2024-25, a chefnogi gwelliant parhaus. Bydd y dyraniadau hyn yn helpu i gryfhau'r trefniadau cyflawni ac yn ailosod cyfansymiau rheoli targedau'r Byrddau Iechyd Lleol.

Mae'r elfen gyntaf yn ymwneud â dyraniad cyffredinol o £50m i'r saith Bwrdd Iechyd Lleol, ar sail fformiwla dyrannu adnoddau (cyfraniadau teg). Bydd hwn yn ddyraniad rheolaidd wedi'i gadarnhau. Roedd y cyllid hwn yn cydnabod y pwysau chwyddiant a oedd yn parhau yn 2024-25 mewn meysydd penodol lle darparwyd cymorth ariannol anghylchol yn eu herbyn yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Ar ben hynny, mae'r rhain yn cael eu profi ac mae pwysau chwyddiant meintiol yn parhau ar draws yr holl Fyrddau mewn meysydd penodol sydd uwchben y cynllun yn 2024-25. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â phresgripsiynu, meddyginiaethau gofal eilaidd, a phecynnau gofal iechyd parhaus (CHC) yn benodol.

Mae'r dyraniad cyffredinol yn cynnwys darparu £7.5m i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i gydnabod eu bod wedi cyflawni sefyllfa gytbwys yn 2023-24, Cynllun Tymor Canolig Integredig sydd wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion, ac i

gefnogi'n rhannol effaith y costau refeniw uwch sy'n gysylltiedig â'r problemau gyda tho ysbyty Tywysoges Cymru.

Mae'r ail elfen yn darparu dyraniadau penodol sy'n gyfanswm o £62m ac fe'i cyfeirir at dri sefydliad. Mae'r dyraniadau hyn yn dilyn adolygiad "pellter oddi wrth y targed" a gynhaliwyd gan swyddogion y Byrddau Iechyd Lleol. Roedd yn adolygu safbwyntiau cyllido pob Bwrdd yn erbyn y fformiwla dyrannu adnoddau, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ystyriwyd gan y Bwrdd.

I bob pwrpas, mae'r dyraniadau hyn yn cydnabod os yw sefydliadau'n gymharol bell o'r dyraniad cyllid targed fesul Bwrdd, a gafodd yr holl ddyraniadau eu rhoi ar sail y Fformiwla Dyrannu Adnoddau. Ar sail yr adolygiad hwnnw, a defnyddio dull cyson a theg gydag egwyddorion y cytunwyd arnynt, aseswyd bod gan dri Bwrdd Iechyd achos ar sail tystiolaeth dros gael cymorth ariannol ar yr adeg. Y rheini yw, Aneurin Bevan (£31m), Hywel Dda (£26m), a Phowys (£5m). Nid oedd gan unrhyw Fwrdd Iechyd arall achos sylweddol dros gydnabod cymorth ariannol ar adeg yr adolygiad. Mae'r dyraniadau ychwanegol hyn yn cael eu cefnogi gan ddarpar amodau penodol sy'n cefnogi'r gwaith o barhau i wella.

O ganlyniad i'r broses adolygu hon a'r dyraniad cyllid yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom osod Cyfansymiau Rheoli Targed wedi'u hadnewyddu fesul Bwrdd Iechyd.

Dyraniadau i Fyrddau Iechyd Lleol a Chyfansymiau Rheoli Targed:

Sefydliad	Rhagolwg M7	Dyraniad ychwanegol yn ystod y flwyddyn (cyffredinol)	Dyraniad ychwanegol yn ystod y flwyddyn (penodol)	Sefyllfa arfaethedig M7 diwygiedig	Cyfanswm rheoli targed 2024-25
Gwarged/-Diffyg	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
Bae Abertawe	-50,100	6,399	0	-43,702	-17,000
Aneurin Bevan	-47,856	9,546	31,000	-7,311	-7,315
Betsi Cadwaladr	-19,761	11,151	0	-8,611	-8,611
Caerdydd a'r Fro	-15,900	6,804	0	-9,097	-9,097
Cwm Taf Morgannwg	0	7,475	0	0	0
Hywel Dda	-64,000	6,449	26,000	-31,551	-31,552
Powys	-22,948	2,178	5,000	-15,770	-12,000
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	0	0	0	0	0

Iechyd a Gofal Digidol Cymru	0	0	0	0	0
Iechyd Cyhoeddus Cymru	0	0	0	0	0
Felindre (gan gynnwys Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)	524	0	0	524	0
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru	0	0	0	0	0
GIG Cymru	-220,041	50,000	62,000	-115,516	-85,575

Ar gyfer Byrddau Iechyd sy'n rhagweld sut bydd eu cynlluniau'n cael eu cyflawni, mae'r cyfanswm rheoli targed diwygiedig yn cydnabod y cyllid ychwanegol yn erbyn y cynllun hwnnw a'r sefyllfa a ragwelir. Yn yr achosion lle mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn dirywio o ganlyniad i'r alldro a'r sefyllfa rheoli targed a gyflwynwyd yn 2023-24 (Bae Abertawe a Byrddau Iechyd Powys yn y drefn honno), mae'r cyfanswm Rheoli Targed presennol wedi cael ei gadw fel y garreg filltir i'r Bwrdd Iechyd fynd yn ôl ar y trywydd iawn i gyflawni'n ariannol.

Ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn gallu cyflawni'r cyfanswm rheoli targed hwnnw yn ystod y flwyddyn, mewn gwirionedd (yn seiliedig ar y cyfansymiau rheoli a bennwyd a'r rhagolygon cyfredol), mae'r ddarpariaeth anghylchol yn cael ei darparu yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer y gwahaniaeth yn y rhagolwg presennol a'r cyfanswm rheoli targed yn seiliedig ar y rhagolygon presennol. Y cyfanswm rheoli targed fydd y garreg filltir a'r targed o hyd i gynlluniau Byrddau Iechyd fynd yn ôl ar y trywydd iawn a chyflawni yn y lle cyntaf.

Yn erbyn y diffygion o £220m a ragwelwyd yn wreiddiol gan Fyrddau Iechyd, dyrannwyd £104m i Fyrddau Iechyd ym mis 7 gydag £8m ychwanegol wedi'i ddyrannu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn perthynas â'r problemau yn Ysbyty Tywysoges Cymru, gan wneud cyfanswm y dyraniad ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn £112m. Gosodwyd cyfansymiau rheoli targed ar £85m. Mae £116m yn cael ei gadw yn y Prif Grŵp Gwariant i wrthbwysu'r diffyg diwygiedig a ragwelir.

Dyletswydd Statudol i Fantoli'r Gyllideb 2022-23 i 2024-25

Fel yr adroddwyd mewn Crynodeb o Gyfrifon y GIG ar gyfer 2023-24, nid oedd yr un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol wedi cyflawni'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd dan sylw. Gan mai Cwm Taf Morgannwg yw'r unig Fwrdd Iechyd Lleol sy'n debygol o adennill costau yn ystod blwyddyn 2024-25, ar hyn o

bryd nid oes disgwyl i unrhyw un o'r Byrddau Iechyd Lleol gyflawni eu dyletswydd adennill costau am y cyfnod o dair blynedd rhwng 2022-23 a diwedd 2024-25.

Dim ond Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a ddarparodd Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd ar gyfer 2024 – 2027 a gymeradwywyd gan Weinidogion.

Cymorth ariannol ychwanegol yn ystod y flwyddyn 2024-25

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Cabinet wedi cytuno i ddyrannu rhagor o gyllid yn ystod y flwyddyn, o Gronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael eu cyfeirio at brif feysydd blaenoriaeth y Llywodraeth hon.

Rydym wedi dyrannu £50m i leihau amseroedd aros y GIG a £27m i gefnogi gwelliannau mewn llwybrau gofal, gyda'r ddau ddyraniad ar gyfer 2024-25 yn unig. Mae dyraniadau cyfalaf hefyd ar gyfer Offer Diagnostig a Seiberddiogelwch a Thechnoleg Ddigidol, sy'n gyfanswm o £31m.

Mae'r £8m ychwanegol, y cyfeirir ato uchod, ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cael ei ddarparu o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru yn anghylchol yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gynnal perfformiad wrth i'r sefydliad ddelio â'r problemau yn ysbyty Tywysoges Cymru.

Bydd y dyraniadau hyn yn cefnogi darpariaeth y GIG yn y flwyddyn ariannol bresennol ac yn darparu ar gyfer capasiti ychwanegol.

Bydd yr holl ddyraniadau'n cael eu cynnwys mewn ail gyllideb atodol yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol.

Dyraniadau Byrddau Iechyd Lleol 2025-26

Nid yw prif lythyr Dyraniadau Byrddau Iechyd y GIG wedi'i gwblhau'n llawn eto. Bydd rhagor o fanylion a chopi o'r llythyr a'r tablau ariannol yn cael eu rhoi i'r pwyllgor ar ôl iddynt gael eu cwblhau a'u cyflwyno i'r GIG.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi fframwaith dyrannu clir ar gyfer cyrff y GIG yn 2024-25, ochr yn ochr â disgwyliadau clir o ran cyflawni, a disgwyliadau o ran gwella ariannol. Mae'r camau gweithredu a nodir uchod i adlewyrchu dyraniadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn a chyfansymiau rheoli targed newydd, i gyd yn rhan o Lywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i ddychwelyd i'r balans ariannol.

Y disgwyliad yw y bydd pob Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliannau gyda llwybr ar gyfer darparu sefyllfa ariannol gynaliadwy. Mae'r cyfansymiau rheoli targed newydd yn garreg filltir allweddol yn y llwybr gwella i ddychwelyd i'r balans ariannol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi gwelliant, gan gydnabod bod rhai heriau yn effeithio ar bob Bwrdd Iechyd yn gyson, fel twf parhaus nad oes modd ei osgoi

mewn galw, a phwysau chwyddiant parhaus, sydd wedi cael eu cefnogi gan gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, bydd gan bob Bwrdd Iechyd ei heriau ei hun a fydd yn unigryw i sefydliadau o ystyried anghenion amrywiol poblogaethau, daearyddiaeth a ffurfweddiad gwasanaethau ar draws byrddau iechyd. Efallai na fydd camau cyflawni sy'n bosibl mewn rhai Byrddau Iechyd yn bosibl mewn rhai eraill.

Disgwylir i bob bwrdd iechyd wneud y penderfyniadau gorau posibl i gydbwyso risg gwasanaeth, gweithlu a risg ariannol yn y paramedrau cyflawni hyn, a chyflawni gwelliannau ariannol ar yr un pryd â chyflawni anghenion eu poblogaeth leol.

Disgwylir i sefydliadau sicrhau bod effaith penderfyniadau'n cael eu hasesu'n gadarn o ran ansawdd, diogelwch, risg a'r gallu i gyflawni, a bod y cydbwysedd gorau posibl rhwng barn am risg a gwneud penderfyniadau. Byrddau Iechyd Lleol fydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pa gamau yw'r rhai mwyaf priodol i sicrhau gwelliannau ariannol wrth gydbwyso'r holl newidynnau a risgiau eraill.

Mae gan Lywodraeth Cymru fframwaith cadarn o fesurau cefnogi, monitro ac uwchgyfeirio, ac ymyrryd. Rydym yn defnyddio'r fframweithiau presennol sy'n ymwneud ag ymyriadau ac rydym wedi gosod meini prawf clir ar gyfer dad-ddwysáu i gefnogi gwelliant sefydliadol fel rhan o'r fframweithiau hynny, gyda chymorth Tîm Cynllunio a Chyflawni Ariannol Gweithrediaeth y GIG.

Ar ben hynny, mae agenda genedlaethol y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yn parhau i gefnogi'r system i nodi a darparu cyfleoedd i gyflawni arbedion a gwelliannau o ran defnyddio adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. Mae'r dull hwn wedi helpu GIG Cymru i sicrhau mwy o arbedion a gwelliannau na blynyddoedd ariannol blaenorol.

14. Gofal Cymdeithasol

Dyraniad a gynlluniwyd ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys y canlynol:

- Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2025-26, a sut bydd y cyllid hwnnw'n cael ei dargedu.
- Sut bydd y dyraniadau yn helpu i sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref.
- Pa gymorth y bydd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o unrhyw gynlluniau cymorth newydd a gwariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr.
- Mesurau yn y gyllideb ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol, yn enwedig prinder staff gofal cartref.

Ymateb:

Mae'r rhan fwyaf o gyllid gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu drwy'r setliad refeniw cyffredinol heb ei neilltuo ac adnoddau'r awdurdodau lleol eu hunain o'r dreth gyngor, ffioedd a thaliadau, a mathau eraill o incwm. Awdurdodau lleol unigol sy'n pennu rheolaeth a chyfeiriad y buddsoddiad hwn.

Bwriad buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn gofal cymdeithasol yw cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol drwy fuddsoddi mewn agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau.

Yn 2025-26 rydym yn bwriadu dyrannu dros £141m o gyllid refeniw i gyflawni ein nodau polisi gofal cymdeithasol. Enghraifft o ddarpariaeth a ariennir yw'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol. Cyflwynwyd hyn ym mis Ebrill 2022 i gefnogi gweithgarwch i hybu'r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, ac mae'n ategu'r cyllid a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol.

Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio Gofal Cymdeithasol, i wella'r ddarpariaeth ac i wella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed ac ar gyfer ofalwyr di-dâl, ac i sefydlu

Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.

Cyllid ychwanegol 2025-26

Yn 2025-26, bydd y setliad refeniw cyffredinol yn y Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yn cael ei gynyddu £235m i adlewyrchu'r pwysau ychwanegol sy'n wynebu awdurdodau lleol.

Eleni, fe wnaethom ymgynghori ar godi tâl gofal cartref. Rydym wedi penderfynu cadw'r uchafswm tâl presennol ar £100 yr wythnos. Bydd £5m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol i'w cefnogi. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau yn y ffordd y mae costau gofal cartref yn cael eu codi ledled Cymru.

Er nad oes unrhyw fuddsoddiad ychwanegol sylweddol arall wedi cael ei ddyrannu i'r cyllidebau gofal cymdeithasol yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, byddwn yn dyrannu dros £141m yn 2025-26 ac yn parhau i ymrwymo i gyflawni ymrwymadau allweddol ein Rhaglen Lywodraethu fel dileu elw o fathau penodol o ofal cymdeithasol plant ac adeiladu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig, cefnogi gofalwyr a hefyd canolbwyntio'n benodol ar leihau oedi mewn llwybrau gofal.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol ar draws y sector i fanteisio i'r eithaf ar yr holl gyllid sydd ar gael yn 2025-26.

Sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau

Fel y nodwyd, mae'r rhan fwyaf o gyllid gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu drwy'r setliad refeniw cyffredinol heb ei neilltuo ac adnoddau'r awdurdodau lleol eu hunain o'r dreth gyngor, ffioedd a thaliadau, a mathau eraill o incwm. Awdurdodau lleol unigol sy'n pennu rheolaeth a chyfeiriad y buddsoddiad hwn (gan gynnwys mewn perthynas â sefydlogi a chefnogi gofal cartref a phreswyl).

Bwriad buddsoddiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru mewn gofal cymdeithasol yw cefnogi gwariant prif ffrwd awdurdodau lleol drwy fuddsoddiad sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar ddatblygu a gwella gwasanaethau.

Un enghraifft o'r pwynt diwethaf fyddai'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022, i gefnogi gweithgarwch i hybu'r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, er mwyn ategu'r cyllid a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol.

Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio Gofal Cymdeithasol a gwella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed a gofalwyr di-dâl, ac i sefydlu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal

Cymdeithasol.

Er enghraifft, mae'r ddau gynllun ar gyfer gofalwyr di-dâl a ddarperir drwy'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn cael eu derbyn yn dda iawn gan ofalwyr a phartneriaid rhanddeiliaid. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu cymorth ariannol brys a chynghor ariannol – a chyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant byr o'u rôl gofalu. Mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi gofalwyr di-dâl i barhau â'u rôl gofalu, sy'n cyfrannu at sefydlogrwydd cyffredinol y sector. Bwriad y cynllun Seibiant Byr yw annog y gwaith o arloesi a datblygu dewisiadau eraill yn lle gwasanaethau seibiant traddodiadol, sy'n cyd-fynd yn well â'r hyn y mae gofalwyr yn ei ddweud sydd ei angen arnynt.

Ar ben hynny, bydd y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn parhau i gefnogi gwasanaethau preswyl a maethu plant drwy'r grant dileu elw sydd wedi cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol ers blwyddyn ariannol 2022-23 i gynllunio'r gwaith o ddatblygu darpariaeth newydd ynghyd â'i staff dilynol. Bydd y grant diwygio radical cysylltiedig, sydd hefyd dan y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol, yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol yn yr agenda trawsnewid ehangach.

Gofalwyr di-dâl

O ran gofalwyr di-dâl, mae'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr (£4.5m yn 2022-25) yn helpu gofalwyr di-dâl i ymdopi â chostau byw cynyddol drwy ddarparu grantiau i brynu eitemau hanfodol sylfaenol, fel bwyd, eitemau i'r cartref ac eitemau electronig. Mae tystiolaeth gref o'r angen parhaus am y gronfa hon, sydd wedi cael ei darparu'n llwyddiannus gan y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol dros y tair blynedd diwethaf.

Mae'r Cynllun Seibiant Byr ar gyfer gofalwyr di-dâl (£9m ar gyfer 2022-25) hefyd yn cael ei ariannu gan y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ac mae'n darparu cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant o'u rôl gofalu. Unwaith eto, mae hwn yn gynllun sy'n cael ei groesawu a'i ddarparu'n dda iawn, lle mae'r galw'n parhau i fynd y tu hwnt i'r cyflenwad.

Mae'r dystiolaeth yn dangos nad oedd y gwasanaethau yn gwybod am bron i hanner yr ymgeiswyr ar gyfer y ddau gynllun hyn o'r blaen. Mae hyn yn dangos y gwerth ychwanegol, lle mae'r cynlluniau hyn yn gweithredu fel pyrth i ofalwyr lle gellir eu cyfeirio at ffynonellau cynghor a chefnogaeth eraill.

Yn ogystal â'r cyllid hwn, mae £1m yn cael ei ddarparu i fyrddau iechyd drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gefnogi gofalwyr di-dâl lle mae'r unigolyn sy'n cael gofal yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu'n cael ei ryddhau. Mae'r cyllid hwn sydd wedi'i neilltuo yn gymorth sylweddol i ofalwyr ac mae'n cyfrannu at yr agenda i leihau oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai. Yn ogystal, mae'n ofynnol bod pump y cant o gyllid cyffredinol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael ei wario ar wasanaethau i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Yn olaf, mae cyllid ar gael i sefydliadau cenedlaethol o'r cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i ddarparu

gwasanaethau a chymorth i ofalwyr di-dâl ac i gyflawni amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Nid oes dim cyllid ychwanegol i alluogi ehangu cymorth ariannol/cynlluniau newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol

Fel llywodraeth, rydym yn dal i weithio i greu sylfaen gadarn i adeiladu ein gweithlu gofal cymdeithasol arni. Nod ein cyllid sylweddol o tua £28m drwy Gofal Cymdeithasol Cymru yw arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol drwy recriwtio a chadw gweithlu proffesiynol o ansawdd uchel.

Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 yn cynnwys cyllid a ddyrannwyd yn y Grant Cynnal Refeniw i godi cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol, fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y cynnydd yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref (gwasanaethau oedolion a phlant) a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth. Bydd hefyd yn cael ei dderbyn gan bob cynorthwydd personol sy'n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

Bydd darparu gwell cyflog drwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector ac mae'n sicrhau gwelliannau i'r gweithlu gofal cymdeithasol ac yn gwella lefelau cadw'r gweithlu a'r canlyniadau i bobl sy'n cael gofal a chymorth. Er ein bod yn cydnabod y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol, ni fydd yn mynd i'r afael â phob her ym maes Gofal Cymdeithasol ar ei ben ei hun. Bydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd ac uchelgais tymor hwy i godi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio, yn gwella cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu gyrfaedd, ac yn helpu i wella'r broses recriwtio a chadw staff.

Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gefnogi ymhellach gan waith y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol i fynd i'r afael â chyflog teg yn y sector sy'n cynnwys yr ymrwymiad i ddatblygu Fframwaith Cyflog a Chynnydd ar gyfer y sector, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd cyflog, dilyniant a datblygiad mwy cyson i ddenu mwy o bobl i'r sector.

Bwrsari Gweithwyr Cymdeithasol

Darperir cyllid ar gyfer bwrsari gweithwyr cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n astudio gradd mewn gwaith cymdeithasol ac mae'n cynnig cymorth ariannol ychwanegol. Mae hyn yn gwneud y radd gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol a bydd yn sicrhau bod gennym gyflenwad cynaliadwy o weithwyr cymdeithasol yn y dyfodol.

Mae'r cynnydd i'r bwrsari o £10m dros dair blynedd a gyhoeddwyd yn 2022 wedi bod ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cychwyn ar y cwrs ers 2021-22. Mae'r cymorth ariannol ychwanegol ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yng Nghymru drwy'r Bwrsari Gwaith Cymdeithasol. Mae cynyddu'r bwrsari yn golygu bod ein cyllid ar gyfer y rhaglen hon bron yn £10m dros dair blynedd i helpu i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol y dyfodol. O'r pecyn cyllid hwn sy'n werth £10m, mae'r newidiadau rydym wedi'u gwneud yn costio cyfanswm o £3.5m dros y tair blynedd. Mae hyn yn gynydd o fwy na 50 y cant i'r bwrsari gwreiddiol i israddedigion ac ôl-raddedigion.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn cyflawni rôl hanfodol yn ein cymunedau, gan gefnogi pobl i fod yn gyfrifol am eu bywydau eu hunain. Maent wrth wraidd ein system gofal cymdeithasol ac maent yn allweddol i ddarparu gofal effeithiol. Mae'r bwrsari Gwaith Cymdeithasol i fyfyrwyr yn cefnogi pobl sydd â'r priodoleddau a'r sgiliau priodol i allu ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Ei nod yw cyfrannu at dwf gweithlu gwaith cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru ac mae'n cyfrannu at y costau a wynebier gan unigolion sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr cymdeithasol.

Grant y Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (grant gweithlu)

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi cael ei osod yn eang gan ganiatáu i awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Yn ymarferol, mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o fesurau – o godi cyflogau i gamau gweithredu sydd wedi'u hanelu at gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'r grant hwn wedi cael ei roi i awdurdodau lleol bob blwyddyn ers 2019 a bydd yn £45m ar gyfer 2025-26.

Item 3.1

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Health and Social Care Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jeremy Miles AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dawn Bowden AS

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol

Sarah Murphy AS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

23 Hydref 2024

Annwyl Weinidogion,


Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

Yn unol â'n harfer, rwyf yn ysgrifennu cyn i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi ar gyfer 2025-26 i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu.

Rydym yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ddydd Mawrth 10 Rhagfyr 2024, a byddwn yn eich gwahodd i sesiwn dystiolaeth lafar ddechrau'r flwyddyn newydd. Bydd y clerc yn cysylltu â'ch swyddfeydd i drafod dyddiadau.

Er mwyn hwyluso ein gwaith craffu, byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall yr hoffech ei darparu, erbyn dydd Gwener 13 Rhagfyr 2024.

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 80

Atodiad: cais am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26

Blaenoriaethu

1. Manylion y dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu meysydd gwariant, ar draws y gyllideb gyfan ac o fewn iechedd a gofal cymdeithasol. (Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet wedi dweud y bydd cyllideb nesaf Llywodraeth Cymru "yn heriol iawn unwaith eto, a bydd yn rhaid inni ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau pwysicaf oll, ac ni fydd digon o arian i fynd i'r afael â'r holl bwysau sy'n ein hwynebu").

Amseroedd aros

2. Dyraniadau i gefnogi'r rhaglen ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros y GIG.

Iechyd meddwl

3. Dadansoddiad o ddyraniadau i wella iechyd meddwl a lles yng Nghymru, gan gynnwys dyraniadau i:
 - gefnogi gweithredu strategaeth iechyd meddwl newydd Llywodraeth Cymru a strategaethau atal hunanladdiad;
 - gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chanlyniadau ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc.

Y gweithlu

4. Dyraniadau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a chynllun gweithredu'r gweithlu cenedlaethol, gan gynnwys cyfeiriad penodol at gadw staff a llesiant staff.

Gofal sylfaenol

5. Sut y bydd y gyllideb yn cefnogi cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio gofal cychwynnol, a symud rhagor o ofal allan o ysbytai i leoliadau gofal cychwynnol /gofal cymunedol.

Trawsnewid Gwasanaethau

6. Sut y bydd y gyllideb hon yn cydbwyso'r angen i gwrdd â phwysau ar unwaith/tymor byr (e.e. yr ôl-gronid amseroedd aros, prinder gweithlu) gyda thrawsnewid gwasanaethau yn y tymor hwy.

Atal

7. A welwyd symud adnoddau tuag at atal/ymyrraeth gynnar. Ble yn y gyllideb y gellir gweld hyn.

Ystadau a seilwaith

8. Dyraniadau cyfalaf a refeniw i ddatblygu, gwella a chynnal ystadau a seilwaith y GIG, gan gynnwys y seilwaith digidol.

Anghydraddoldebau iechyd

9. Tystiolaeth o ddull trawslywodraethol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a phenderfynyddion ehangach iechyd, a bod 'iechyd y boblogaeth' yn ystyriaeth ar draws cyllidebau adrannau'r llywodraeth.
10. Sut mae effaith dyraniadau cyllid ar wahanol grwpiau/cymunedau wedi'i hystyried wrth ddatblygu cynigion y gyllideb.

Iechyd menywod

11. Sut y bydd y gyllideb yn cefnogi iechyd menywod, gan gynnwys manylion y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i gefnogi cam cyflawni 10 mlynedd y cynllun iechyd menywod.

Asesu effaith/gwerth am arian

12. Y mecanweithiau sydd ar waith (o fewn y system iechyd a gofal ac ar lefel Llywodraeth Cymru) i asesu a yw gwariant gan fyrddau iechyd/ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol yn cyflawni ei nodau ac yn sicrhau gwerth am arian. Beth/ble mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yw'r prif heriau wrth asesu canlyniadau/gwerth am arian.

Perfformiad a chynllunio ariannol byrddau iechyd lleol

13. Y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd, gan gynnwys:
 - sefyllfa ariannol ragamcanol byrddau iechyd ar gyfer diwedd y flwyddyn 2024-25, a pha fyrddau iechyd sy'n rhagamcanu y byddant yn torri eu dyletswyddau ariannol statudol i fantoli eu cyfrifon dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25 ac i sicrhau cymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer eu cynlluniau tymor canolig integredig ar gyfer y cyfnod 2024 i 2027;
 - pa fyrddau iechyd sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn yn 2024-25; maint y cymorth hwnnw a'r hyd arfaethedig; ynghyd â chadarnhad o unrhyw gyllid sy'n cael ei ddal yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol sydd eto i'w ddyrannu neu sy'n cael ei ddal i dalu am orwariant

- copi o'r llythyr a anfonwyd at Fyrddau Iechyd Lleol i'w ddefnyddio wrth iddynt baratoi eu cynlluniau tymor canolig integredig ar gyfer 2025 i 2028, os na chaiff hwn ei gyhoeddi erbyn i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor;

(Yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bryd hynny gyhoeddi copi o'r llythyr a anfonodd at Fyrddau Iechyd a oedd i'w ddefnyddio wrth iddynt baratoi eu gwahanol Gynlluniau Tymor Canolig Integredig. Lle bo'n berthnasol, dylai wneud hyn yn flynyddol, ochr yn ochr â chyhoeddi dogfennau cyllideb ddrafft eraill Llywodraeth Cymru. Yn ei hymateb, cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd i wneud hynny wrth symud ymlaen.)

- manylion dyraniadau Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer 2025-26, a gyhoeddir yn flynyddol o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru, os yw'r llythyrau wedi cael eu hanfon at Fyrddau Iechyd Lleol ond eu bod heb gael eu cyhoeddi erbyn i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor;
- manylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda byrddau iechyd i ddod â GIG Cymru'n ôl i gydbwysedd ariannol.

(Mae'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 yn dangos na chyflawnodd yr un Bwrdd Iechyd Lleol y ddyletswydd ariannol statudol gyntaf o dan Ddeddf Cyllid y GIG 2014 ('y Ddeddf') i fantoli eu cyllideb dros gyfnod treigl o dair blynedd: adroddodd pob un ohonynt orwariant cronol yn erbyn y terfyn dyraniad adnoddau refeniw ar gyfer 2021-22 i 2023-24. Dyma'r tro cyntaf i bob Bwrdd Iechyd Lleol fethu â mantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd ers i'r Ddeddf gael ei gweithredu. Cyfanswm gorwariant Byrddau Iechyd Lleol yn 2023-24 yw £185 miliwn, gyda gorwariant cronol o £385.3 miliwn dros y tair blynedd).

Gofal cymdeithasol

14. Amlinellu'r dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

- unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2025-26, a sut y caiff y cyllid hwn ei dargedu.
- sut y bydd y dyraniadau'n sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref?
- pa gymorth y bydd y Gyllideb Ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth am unrhyw gynlluniau cefnogi newydd a gwariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr.
- mesurau yn y Gyllideb Ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol, yn arbennig o ran prinder staff gofal cartref.

Y Pwyllgor Deisebau

Item 3.2

Petitions Committee

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Mark Drakeford AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CF99 1SN

Copi at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

6 Rhagfyr 2024

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet

Deiseb P-06-1400 Adnoddau teg a digonol ar gyfer practisau cyffredinol yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Lewis Williams o BMA Cymru, yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd.

Nododd y Pwyllgor y ddadl ar y ddeiseb hon yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Tachwedd, ac y bydd gwaith manwl pellach ar y mater yn parhau i gael ei wneud gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cytunodd yr Aelodau i rannu pryderon y deisebydd gyda chi, a chydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yng ngoleuni'r broses graffu bresennol ar y Gyllideb Ddrafft. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a bydd y Pwyllgor Deisebau yn cadw'r ddeiseb ar agor hyd nes y daw ymatebion. Gweler gohebiaeth atodedig gan y deisebydd i chi ei hystyried.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1400 Adnoddau teg a digonol ar gyfer practisau cyffredinol yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros e-bost at y tîm clericio yn deisebau@senedd.cymru.



Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Carolyn". The script is cursive and fluid, with the 'C' being particularly large and stylized.

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or
English.



BMA Cymru Wales comments on debate held on Petition **P-06-1400 Fair and Adequate Resourcing of General Practice in Wales**

Introduction

The BMA is a professional association and trade union representing and negotiating on behalf of all doctors and medical students in the UK. It is a leading voice advocating for outstanding health care and a healthy population. It is an association providing members with excellent individual services and support throughout their lives.

Comments

We are pleased to see this petition debated in the Senedd, and are grateful to the Petitions Committee for its work on the petition to date. Furthermore, we are delighted that the Health and Social Care Committee will hold a Senedd Inquiry on the topic in 2025.

We thank all those who supported and signed this petition. We thank Members from across the Senedd for their contributions to the debate, and it was encouraging to hear some acceptance from the Cabinet Secretary for Health and Social Care of the concerns illustrated by the BMA Cymru Wales's Save our Surgeries campaign, on behalf of GPs, their staff and patients across the country. However, there was little to suggest Welsh Government will be taking any meaningful action within the required timeframe to safeguard the future of General Practice given the focus remains on prioritising funding of secondary care and waiting lists. This is regrettable and may destabilise the entire foundation of an effective NHS, free at the point of use in the future, if not addressed urgently.

Two further issues have arisen over the last fortnight which regrettably will further impact on the financial viability of GP practices in Wales.

1. Rejection of GMS Contract offer

The Committee will be aware of the recent news that BMA Cymru Wales' GP committee, GPC Wales voted unanimously to reject the Welsh Government's GMS Contract offer for General Medical Services (GMS) for 2024/25. GPs in Wales will now be given the opportunity to vote on whether to accept or reject the contract in a referendum which will open later this month.

- Read our press statement [here](#)
- Read Dr Gareth Oelmann's open letter to GPs in Wales [here](#).



2. Impact of National Insurance Employer Contributions upon GMS practices

Following the announcement of the latest UK Government Budget, the GPC Wales has commented on the detrimental impact increasing employer National Insurance Contributions (NICs) will have upon GMS services in Wales. On Friday 8 November, Dr Gareth Oelmann, Chair of GPC Wales wrote to the Cabinet Secretary to raise this issue. Read the letter [here](#).

Unfortunately, if not addressed, the above issues will result in wider matters raised by the petition getting worse. As such, the BMA Cymru Wales and GPC Wales will continue to call on Welsh Government to address the ever-increasingly urgent concerns raised in the Save our Surgeries campaign to prevent the further practice closures and restore and sustain general practice in Wales to support a Healthier Wales. We would wish to see a continued political focus on the plight of General Practice and thank the petitions committee for prioritising the petition for a debate.

The BMA Cymru Wales will continue to keep the Committee, and its members informed of our ongoing work in this area and would welcome any opportunity to further brief Members of the Senedd who would like to support our campaign and amplify our calls to Welsh Government.

Comment on the debate response from the Cabinet Secretary for Health and Social Care

We acknowledge the Cabinet Secretary for Health and Social Care's comments on the petition, in particular his recognition of the 'concerning aspects' highlighted by the Save our Surgeries campaign.

The Cabinet Secretary stated surgeries in Wales see around 1.5 million people every month. It is in fact over 1.6 million appointments per month the equivalent of 50% of the population of Wales will receive an appointment at their practice each month.

This contrasts with a monthly average of just 11,000 patients receiving care at the 16 Urgent Primary Care Centres (UPCCs) across Wales. In contrast to the UPCC initiative, which has received significant funding over recent years yet is not available in all parts of Wales and remains unevaluated, GMS provision offers universal, unfiltered, holistic and equitable care with the added value of improved continuity and relationship-based care. This undoubtedly adds value for money to investment in longitudinal GMS care.

The staggering number of appointments being provided reflects delivered activity only and does not represent the totality of patient demand. Practices handled 29.1m telephone calls – approximately 120k per working day – and 5.1m digital requests during 2023-24. Equally, it does not reflect the crucial business and educational functions practices must provide.

While the BMA supports the important role of the multi-disciplinary team, and the investment which the Cabinet Secretary pointed out, we still need to train higher numbers of GPs to deliver upon the policy goals of A Healthier Wales, to deal with patient demands, and to accommodate the increased preference for less than full time working and portfolio careers. Compared to other NHS staff groups and other branches of medical practice, the relative headcount of fully qualified GPs has stagnated since 2009. There has only been a 1.8% increase in GP headcount since 2009, compared to a 44% increase in the total consultant headcount. As of January 2024, Wales needs 718 extra GPs to match the average number of GPs per 1000 population in other European countries. Restoring appropriate levels of funding and resourcing to General Medical Services, and ensuring we are recruiting and retaining GPs to work in Wales is a cost-effective investment into a sustainable general practice and the future of the Welsh NHS.

The lack of direct investment into GMS has meant that since 2012, the total headcount of GPs has only gone up by 2%, with 23% fewer full-time equivalent GPs working at practices in Wales. Despite

the figures, general practice has had to cope with a 35% increase in the number of patients per full time GP.

Finally, due to the time restrictions on the plenary schedule, the Cabinet Secretary appeared to be cut off from finishing his response to the debate. We would welcome an approach to the Cabinet Secretary from the Petitions Committee to enquire as to whether there were other remarks he wished to make but did not have the opportunity to do so.

Jeremy Miles AS/MS**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
Cabinet Secretary for Health and Social Care**Llywodraeth Cymru**
Welsh GovernmentRussell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal CymdeithasolSeneddlechyd@senedd.cymru

4 Rhagfyr 2024

Annwyl Russell,

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r argymhellion yn dilyn sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor a gynhaliwyd gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad llafar a'r papur briffio technegol ar 26 Tachwedd, rydym wedi sefydlu grŵp cenedlaethol i adolygu priodoldeb mesurau ymateb ambiwlansys brys a thargedau cysylltiedig. Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch y gwasanaeth, a hynny yng nghyd-destun Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal GIG Cymru a Fframwaith Perfformiad GIG Cymru.

Bydd y grŵp yn adolygu'r dystiolaeth glinigol sydd ar gael yn gyflym ac yn rhoi cyngor ar y materion a ganlyn:

- Priodoldeb y targed cenedlaethol presennol fel modd o alluogi canlyniadau o ansawdd yng nghyd-destun tystiolaeth glinigol sydd ar gael yn y DU ac yn rhyngwladol
- A yw'r fframwaith perfformiad ehangach ar gyfer gwasanaethau ambiwlans yn cydfynd â Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal GIG Cymru
- P'un a oes angen argymhellion ai peidio o ran targedau neu fesurau newydd yn seiliedig ar yr hyn sydd bwysicaf i'r cyhoedd a'r dystiolaeth glinigol sydd ar gael.

Mae'r grŵp, yn bennaf, yn cynnwys arbenigwyr clinigol ym meysydd gofal mewn argyfwng cyn mynd i'r ysbyty ac ymateb ambiwlansys. Dyma aelodau'r grŵp:

Jeremy Griffith (Cadeirydd)	Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru
Stacey Taylor	Prif Gomisiynydd (Dros Dro), Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SNCanolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Ross Whitehead	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwylans ac 111, y Cyd-bwyllgor Comisiynu
Rachel Germine	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tystiolaeth, Gwerthuso ac Effeithiolrwydd, y Cyd-bwyllgor Comisiynu
Liam Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Andy Swinburn	Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Rachel Marsh	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Perfformiad a Chynllunio, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Richard Bowen	Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
Dr Tim Rogerson	Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Mewn Argyfwng, y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng / Ymgynghorydd Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor
Jennifer Winslade	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Dr Anna Kuczynska	Uwch-swyddog Meddygol Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru
Ryan Pike	Pennaeth Ystadegau Ysbytai, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru
Aled Brown	Pennaeth Gofal mewn Argyfwng, Llywodraeth Cymru
Febe Ashley	Uwch-reolwr Polisi Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Llywodraeth Cymru

Bydd y grŵp yn ceisio barn gan ystod o dystion arbenigol, gan gynnwys Llais a sefydliadau'r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod llais y cyhoedd a chleifion yn cael ei ystyried. Bydd arbenigwyr clinigol cenedlaethol ar gyfer strôc, cyflyrau anadlol a chyflyrau'r galon hefyd yn cymryd rhan.

Y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal yng nghyd-destun esblygiad parhaus model ymateb clinigol y gwasanaeth ambiwlans, sy'n cyd-fynd ag argymhelliad arall y Pwyllgor ynghylch cyflwyno asesu ac ymyrraeth glinigol yn gynharach yn nhaith person.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Andrew RT Davies

Aelod o'r Senedd dros
Ganol De Cymru

Member of the Senedd for
South Wales Central

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

AndrewRT.Davies@senedd.wales

Eitem 3.4**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

AndrewRT.Davies@senedd.wales

0300 200 7233 @andrewrt.davies @AndrewRTDavies /AndrewRTDaviesAM 

Russell George MS
Chair, Health and Social Care Committee,
Via email - SeneddHealth@senedd.wales

Dyddiad | Date: 09.12.24

Pwnc | Subject: Surgical Mesh

Dear Russell,

I'm writing to you following a recent meeting with a constituent who was affected by the surgical mesh scandal. I'm sure you're aware that this issue was considered by Baroness Cumberledge and led to the publication of the "First Do No Harm" report in 2020.

In view of my conversation with my constituent, please can I ask:

Has the Health and Social Care Committee carried out any recent work or research on this issue. If so please could I be updated on the latest findings?

If not, could I encourage that the Committee undertake a scrutiny inquiry into the impact on patients who are suffering ill effects of former procedures involving surgical mesh?

I look forward to hearing from you.

With kind regards,



Eitem 3.5

Dawn Bowden AS/MS
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-DB-10882-24

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

17 Rhagfyr 2024

Annwyl Russell,

Diolch i'r Pwyllgor am ystyried y gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn ystod y trafodion Cyfnod 2 ar 28 Tachwedd. Rwy'n falch bod y Bil bellach wedi symud i Gyfnod 3.

Yn ystod y trafodion, ceisiais ymateb yn adeiladol i'r gwelliannau anllywodraethol i'r Bil, er nad oeddwn yn gallu cefnogi'r gwelliannau fel y'u drafftwyd. Hoffwn sicrhau Aelodau'r Pwyllgor fy mod yn ystyried y pwyntiau a godwyd yn ystod Cyfnod 2. Oherwydd hynny, rwyf wedi nodi isod sut rwy'n bwriadu mynd i'r afael â'r pryderon yr wyf yn credu sydd wedi arwain at nifer o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan yr Aelodau.

Gwelliannau sy'n ymwneud â dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Gwelliannau 44, 56, 59, 60 (cyflwynwyd gan Mabon ap Gwynfor AS), a gwelliannau 77 a 94 (cyflwynwyd gan Altaf Hussain AS)

Cyflwynwyd nifer o welliannau i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael mynediad at wasanaeth ymweliadau eirioli annibynnol cofrestredig, yn enwedig pan fydd y polisi dileu elw yn effeithio arnynt. Esboniais yn ystod trafodion Cyfnod 2 fod gan awdurdodau lleol eisoes ddyletswydd statudol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Mae hyn wedi'i amlinellu yn adran 178 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014). Yn ogystal, o dan adran 98 o Ddeddf 2014, mae'n ofynnol hefyd i awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn i benodi person annibynnol i fod yn ymwelydd i'r plentyn (a) os yw'r plentyn yn dod o fewn categori a bennir mewn rheoliadau, neu (b) mewn unrhyw achos arall, mae'n ymddangos i'r awdurdod y byddai er budd y plentyn i wneud hynny. Mae'n bwysig peidio â dyblygu'r dyletswyddau cyfredol hyn, yn enwedig oherwydd y gallai godi amheuon ynghylch bwriad, effeithiolrwydd a chymhwyso'r darpariaethau presennol.

Fodd bynnag, rwy'n deall pryderon yr Aelodau ynghylch ymwybyddiaeth plant sy'n derbyn gofal o'r cynnig o eiriolaeth, a bod hyn yn bwysig os ydynt yn pryderu y gallai darpariaethau'r Bil effeithio arnynt. Mae'r Llywodraeth yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol drwy fforwm i drafod eiriolaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a byddwn yn defnyddio'r fforwm hwn i archwilio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 92

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gydag awdurdodau lleol sut y gallant godi ymwybyddiaeth ymhellach ac annog plant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar y defnydd o eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Dylwn nodi na fydd pob plentyn sy'n derbyn gofal am dderbyn y cynnig o eiriolwr proffesiynol annibynnol – bydd llawer o blant yn dymuno i oedolyn y maent eisoes yn ei adnabod i eirioli drostynt, fel gweithiwr cymdeithasol neu ofalwr maeth. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig bod y cynnig o eiriolaeth annibynnol ar gael i'r plant hyn.

Esboniais hefyd yn ystod trafodion Cyfnod 2 bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'n gwaith cyfathrebu wedi'i gynllunio a anelir at wahanol rannau o'r sector, wedi llunio dogfen ddrafft ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n egluro elfennau allweddol y Bil a'r hyn y mae'n ei olygu iddyn nhw. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r ddogfen gydag aelodau Bwrdd y Rhaglen Dileu Elw, ac yn disgwyl gallu ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hanghenion cyfathrebu parhaus yn cael eu hystyried. Byddaf hefyd yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y gwaith hwn.

Gwelliant 45 (cyflwynwyd gan Mabon ap Gwynfor AS)

Yn ystod Cyfnod 2 cyflwynodd Mabon ap Gwynfor AS Welliant 45, gyda'r bwriad o sicrhau na all rheoliadau a wnaed o dan baragraff 3(1) o Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2016 amharu ar ofal unrhyw blentyn sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd gan ddarparwr sy'n gweithredu o dan y trefniadau pontio. Yn ystod trafodion Cyfnod 2, eglurais er nad oeddwn yn gallu cefnogi'r gwelliant hwn fel y'i drafftaiwyd, ei fod yn cyd-fynd â'n bwriad polisi, ac fy mod yn hapus i ystyried y mater, a'r ymatebion posibl iddo, ymhellach cyn Cyfnod 3.

Hoffwn roi fy sicrwydd unwaith eto nad yw'r Llywodraeth yn dymuno tarfu ar leoliadau presennol a wnaed cyn dechrau'r cyfnod pontio. Fodd bynnag, ar ôl ystyried ymhellach, rydym wedi dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer pŵer deddfu ym mharagraff 3 o'r Atodlen 1A newydd yn briodol ac yn gymesur, ac y byddai ymgais i gyfyngu ymhellach ar y pŵer yn debygol iawn o atal y pŵer rhag cael ei ddefnyddio fel y'i bwriadwyd; hynny yw i sicrhau nad yw darparwyr er elw yn gallu ehangu eu darpariaeth yn ystod y cyfnod pontio (ac eithrio mewn achosion lle gwnaed lleoliadau atodol neu pan oedd amgylchiadau eithriadol eraill).

Rwyf hefyd am bwysleisio bod y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ac felly bydd Aelodau'r Senedd yn gallu craffu a phleidleisio ar unrhyw un o'r rheoliadau hyn cyn iddynt gael eu gwneud, gan gynnwys bodloni eu hunain bod y darpariaethau arfaethedig yn gweithredu yn unol â'r sicrwydd a roddais yn y llythyr hwn.

Gwelliannau 46, 47 a 48 (cyflwynwyd gan Mabon ap Gwynfor AS)

Yn ystod Cyfnod 2 cyflwynodd Mabon ap Gwynfor AS Welliannau 46 a 47, a oedd yn ceisio diffinio "yn agos at" yn Neddf 2014 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil fel y'i cyflwynwyd) fel mewn ardal awdurdod lleol cyfagos, ac i gyfyngu lleoliadau o'r fath i achosion eithriadol yn unig. Cyflwynodd Altaf Hussain AS welliannau tebyg. Yn ogystal, cyflwynodd Mabon ap Gwynfor AS welliant 48 a oedd yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried dymuniadau, barn a theimladau plant os ydynt wedi penderfynu bod y lleoliad mwyaf priodol mewn awdurdod lleol cyfagos i'w hardal awdurdod lleol, yn hytrach nag o fewn yr awdurdod lleol ei hun.

Fel yr eglurais yn ystod trafodion Cyfnod 2, rwy'n credu fod pob un ohonom yn rhannu'r nod o sicrhau bod plant yn cael eu lleoli o fewn ardal eu hawdurdod lleol ac yn agos i'w cartrefi lle

bynnag y bo modd, ond na ddylai hyn fod ar draul sicrhau'r lleoliadau sy'n diwallu eu hanghenion orau. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried ystod o ffactorau wrth benderfynu ar leoli plentyn o dan adran 81A newydd o Ddeddf 2014 (sydd i'w mewnosod gan adran 13 o'r Bil).

Er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i ymdrin â'r materion hyn yn briodol, ymrwymais yn ystod trafodion Cyfnod 2 i ystyried defnyddio cod ymarfer i'w gyflwyno o dan adran 145 i roi arweiniad i awdurdodau lleol ar leoli plant yn eu hardal awdurdod lleol neu'n agos at eu cartrefi, ac i atgyfnerthu'r pwysigrwydd bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol presennol ynghylch rhoi sylw i farn, dymuniadau a theimladau plentyn y maent yn gofalu amdano. Mewn gohebiaeth bellach ag awdurdodau lleol, rwyf hefyd wedi ymrwymo i bwysleisio'r pwynt ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol presennol yn hyn o beth.

Gwelliannau 50, 51 a 52 (cyflwynwyd gan Mabon ap Gwynfor AS)

Yn ystod Cyfnod 2 cyflwynodd Mabon ap Gwynfor AS Welliannau 50, 51 a 52, a oedd yn ceisio sicrhau na all lleoliad atodol fod yn lleoliad anghofrestredig. Fel yr eglurais yn ystod trafodion Cyfnod 2, bydd darpariaethau'r Bil ond yn galluogi i Weinidogion Cymru gymeradwyo lleoliad gyda darparwr cofrestredig gofal preswyl neu ofal maeth plant sydd naill ai'n ddarostyngedig i'r trefniadau pontio ehangach a nodir yn y Bil, os yw'n gweithredu fel darparwr er elw yng Nghymru, neu sy'n gweithredu yn Lloegr. Ni fydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi lleoliad anghofrestredig.

Er mwyn sicrhau bod hyn mor glir â phosibl i awdurdodau lleol, ymrwymais y bydd y sefyllfa hon yn cael ei nodi mewn canllawiau i awdurdodau lleol i gefnogi gweithrediad y broses gymeradwyo atodol: mae hyn yn debygol o fod mewn cod ymarfer i'w gyhoeddi o dan adran 145.

Ymrwymais hefyd y bydd y gwiriadau diwydrwydd dyladwy y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn eu cynnal wrth ystyried cais i gymeradwyo lleoliad atodol yn cynnwys gwirio bod y darparwr y bwriedir trefnu lleoliad gydag ef yn ddarparwr cofrestredig.

Gwelliannau 57 a 58 (cyflwynwyd gan Mabon ap Gwynfor AS)

Yn ystod Cyfnod 2 cyflwynodd Mabon ap Gwynfor AS Welliannau 57 a 58, a oedd yn gofyn am ei gwneud yn ofynnol i gael hysbysiadau gan ddarparwyr ac asesiadau risg gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod pontio, ac i awdurdodau lleol gynnwys yn eu cynlluniau digonolrwydd blynyddol asesiad o faint o letyau sydd eu hangen i ateb y galw (fel y nodir mewn asesiadau risg a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru).

Fel yr eglurais yn ystod trafodion Cyfnod 2, yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor, ymrwymais i gyhoeddi adroddiad cynnydd chwe misol ar weithredu'r darpariaethau dileu elw, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r adroddiad cyntaf erbyn 22 Ebrill 2025 (6 mis ar ôl y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol). Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys diweddariad ar nifer y lleoliadau sy'n gadael y farchnad a nifer y lleoliadau newydd a grëwyd, a bydd yn ystyried sefydlogrwydd y lleoliadau presennol. Am y rhesymau hyn, nid oeddwn yn credu bod angen gwelliant 57.

Fodd bynnag, ymrwymais i edrych ar gynnwys gofyniad ychwanegol yn yr adroddiadau cynnydd chwe misol, sy'n adlewyrchu peth o'r bwriad y tu ôl i'r gwelliannau hyn, ar ffurf datganiad ar ddarparwyr nid-er-elw newydd sy'n ymuno.

O ran gwelliant 58, eglurais fod adran 11 o'r Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried a darparu'r wybodaeth a fyddai'n berthnasol i'r gwelliant hwn. O'r herwydd, nid oeddwn yn credu bod angen y gwelliant.

Fodd bynnag, ymrwymais i ystyried cynnwys gofynion ar gyfer deunydd ychwanegol yng ngwelliannau 57 a 58 yn y gofynion cyffredinol ar gyfer cynlluniau digonolrwydd awdurdodau lleol, megis crynodeb o fwriadau darparwyr (i'r graddau y maent yn hysbys). Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth i'r Llywodraeth ddatblygu ei gofynion manylach ar gyfer y cynlluniau digonolrwydd hyn.

Gwelliannau sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol

Gwelliant 78 (cyflwynwyd gan Altaf Hussain AS)

Cyflwynodd Altaf Hussain AS welliant 78, ynghylch dyletswydd cynllunio'r gweithlu sy'n ymwneud â chynorthwyr personol. Fel yr eglurais yn ystod trafodion Cyfnod 2, nid oeddwn yn gallu cefnogi'r gwelliant, ond rwyf wedi sicrhau'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru eisoes yn weithgar o ran hyrwyddo rôl cynorthwyr personol. Yn fy ymateb ysgrifenedig i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, derbyniais argymhelliad 23 "*Dylai'r Gweinidog weithio gyda chydweithwyr perthnasol yn y Cabinet a phartneriaid ehangach i hyrwyddo rôl y Cynorthwyydd Personol, i gynyddu nifer y ceisiadau ac i wella cyfraddau cadw staff yn y tymor hwy. Bydd hyfforddiant priodol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn*" a nodais y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i werthfawrogi a chadw cynorthwyr personol ymroddedig yn y gweithlu ac i annog mwy o bobl i ymgymryd â'r rolau hyn.

Gwelliant 88 (cyflwynwyd gan Altaf Hussain AS)

Cyflwynodd Altaf Hussain AS welliant 88, gyda'r bwriad o'i gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd lleol ar sut i ddarparu taliadau uniongyrchol, gan gynnwys darpariaeth mewn perthynas â rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Yn ystod y trafodion, eglurais na allwn gefnogi'r gwelliant gan nad oedd yn gweithio o fewn strwythur y Bil. Fodd bynnag, ymrwymais eto i sicrhau bod pwysigrwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yn cael ei gynnwys mewn canllawiau statudol perthnasol ar gyfer y rhan hon o'r Bil, gan bwysleisio'r ymrwymiad a wnes i wrth dderbyn argymhelliad 26 o adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor.

Gwelliant 54 (cyflwynwyd gan Mabon ap Gwynfor AS) a gwelliant 85 (cyflwynwyd gan Altaf Hussain AS)

Cyflwynodd Mabon ap Gwynfor AS ac Altaf Hussain AS welliannau gyda'r bwriad o sicrhau y byddai'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r rhai mewn gofal iechyd parhaus sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Yn ystod y trafodion, eglurais, er nad oeddwn yn gallu cefnogi gwelliannau 54 ac 85 fel y'u drafftwyd, y byddwn yn ystyried gwelliant i gyflawni amcan y gwelliannau hyn yn y pen draw, sef mandadu darpariaeth gwybodaeth a chefnogaeth. Rwy'n falch o gadarnhau i'r Pwyllgor y byddaf yn gweithio gyda'r ddau Aelod i gytuno ar welliant i'r Bil i'r perwyl hwn yng Nghyfnod 3.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi sicrwydd fy mod yn parhau i ymgysylltu â'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau ynglŷn â'r Bil, ac edrychaf ymlaen at barhau â'r ymgysylltiad adeiladol hwnnw yn y Flwyddyn Newydd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, yn ogystal ag at Mabon ap Gwynfor AS ac Altaf Hussain AS yn uniongyrchol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dawn Bowden'.

Dawn Bowden AS/MS

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Bloc 5, Llys Carlton, Parc Busnes Llanellwy,
Llanellwy, LL17 0JG

Block 5, Carlton Court, St Asaph Business
Park, St Asaph, LL17 0JG

Eitem 3.6

Carolyn Thomas MS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deisebau,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

Ein cyf / Our ref: CS/CT(CE24/1102)

Ffôn: 01745 448788 ext 6382

Gofynnwch am / Ask for: Emma Hughes

E-bost / Email: emma.hughes19@wales.nhs.uk

Dyddiad / Date: 23 Rhagfyr 2024

Trwy e-bost – seneddCovid@Senedd.wales

Annwyl Cadeirydd,

Parthed: Deiseb P-06-1350 Ailagor Ward Dyfi yn Ysbyty Tywyn

Diolch am eich llythyr diweddaraf ynglŷn â Ward Dyfi. Nodaf y pwynt fod y Pwyllgor Deisebau wedi trafod y ddeiseb hon am y pumed tro ar 30 Medi a bod hyn yn anarferol, ond rwy'n mawr obeithio y gallwch weld, o'n gohebiaeth gyson, fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth o fewn ei allu i recriwtio a chadw staff yn yr ardal wledig iawn hon, a'n bod yn rhannu rhwystredigaeth y Pwyllgor bod hi'n parhau i fod yn hynod o anodd er gwaethaf pob ymdrech.

Sut roedd y gwasanaeth yn arfer cael ei ddarparu

Cyn cau ward Dyfi dros dro ym mis Ebrill 2023, roedd 10 gwely wedi'u staffio yn Ysbyty Tywyn. Roedd swyddi gwag hirdymor yn golygu bod staff yn gweithio oriau hir y tu hwnt i'w horiau contract fel goramser, ac yn aml yn methu â chymryd gwyliau blynyddol/yn canslo gwyliau blynyddol i sicrhau lefelau staffio diogel ar y ward. Roedd staff asiantaeth yn annibynadwy ac yn aml yn cael eu canslo ar fyr rybudd a oedd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch cleifion.

Nid oedd unrhyw wasanaeth Tuag Adref, roedd y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i gyd wedi'u lleoli ar y ward. Nid oedd Gwasanaeth Mân Anafiadau, gan fod gofyn cyson ar staff a gyflogwyd i weithio yn yr Uned Mân Anafiadau i ddarparu lefel staffio diogel i gleifion mewnol. Cafodd hyn effaith negyddol ar gadw staff gan nad oedd staff yn gweithio yn y meysydd yr oeddynt wedi eu cyflogi i weithio ynddynt yn wreiddiol, ac roedd hyn yn lleihau'r gweithlu ymhellach fyth.

Ar adeg y penderfyniad i gau ward Dyfi dros dro, roedd prinder o bedair nyrs gofrestredig Band 5, un swydd Dirprwy Reolwr Ward Band 6 ac un swydd Rheolwr Ward Band 7. Ddeunaw mis yn ddiweddarach mae un swydd wag ar gyfer nyrs gofrestredig Band 5 ac un swydd wag Band 6 Dirprwy Reolwr Ward ar y ward. Mae pedair nyrs a Hyfforddwyd yn Rhyngwladol wedi cael eu recriwtio i weithio yn Ysbyty Tywyn, ond mae cadw staff yn yr ardal wedi bod yn anodd gyda nifer o staff yn gadael i chwilio am waith y tu allan i'r ardal.

Cyfeiriad Gohebiaeth ar gyfer y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr / Correspondence address for Chairman and Chief Executive:
Swyddfa'r Gweithredwyr / Executives' Office
Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd
Bangor, Gwynedd LL57 2PW

Tudalen ympecyn 97

Web: www.bcu.wales.nhs.uk / **Web:** www.bcu.wales.nhs.uk

Ble mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd, a beth yw nifer y cleifion mewnol sydd angen y gwasanaeth.

Mewn ymateb i fethiant i agor ward Dyfi yn ddiogel oherwydd niferoedd staff annigonol, canolbwyntiodd y Bwrdd Iechyd ar gyflwyno modelau darparu amgen a ddefnyddir yn aml mewn ardaloedd mwy gwledig lle mae recriwtio yn her. Roedd y rhain yn cynnwys darparu gwasanaethau iechyd a gofal yn uniongyrchol yng nghartrefi cleifion, gweithio'n agosach gyda chartrefi gofal yn yr ardal i ddarparu gwasanaethau i'w preswylwyr er mwyn medru aros yn eu lleoliad am gyfnod hwy, a darparu cymorth i gleifion i'w galluogi i dreulio eu hwythnosau a'u dyddiau olaf yn eu cartref eu hunain, gydag urddas. Rydym wedi amlinellu'r rhain i'r Pwyllgor eisoes yn ein gohebiaeth. Mae'r darpariaethau yma wedi eu croesawu gan gleifion a'u teuluoedd, cartrefi gofal a'r awdurdod lleol.

Mae gwelyau cleifion mewnol ychwanegol wedi'u hagor yn Ysbyty Dolgellau, a cheir yno 18 gwely erbyn hyn, sef cynnydd cyffredinol o 4 gwely i fodloni'r galw yn Nhywyn. Mae rhai aelodau staff o ysbyty Tywyn wedi cael eu defnyddio i gefnogi'r gwelyau ychwanegol. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniwyd 67 o gleifion mewnol o ardal Tywyn. Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o 3.5 claf y mis.

Mae agor y gwelyau ychwanegol yn Nolgellau ac adleoli staff dros dro o Dywyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyd arhosiad cleifion. Cyn cau ward Dyfi, roedd Ffisiotherapyddion a Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio ar draws wardiau cleifion mewnol Tywyn a Dolgellau. Ers cau ward Dyfi dros dro, mae staff therapi wedi gallu darparu lefelau uwch o gymorth therapi i gleifion gan wella eu hadsefydliad a'u hadferiad, a lleihau'r amser sydd angen i gleifion aros yn yr ysbyty.

Crëwyd capasiti cymunedol ychwanegol yn ardal Tywyn trwy weithredu gwasanaeth Tuag Adref. Mae'r gwasanaeth hwn yn cefnogi cleifion i aros gartref, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi yn ogystal â chefnogi rhyddhau'n gynt o'r Ysbyty a darparu cymorth lefel isel ac adsefydlu gartref ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Cafodd gweithwyr cymorth gofal iechyd a oedd yn arfer gweithio ar ward Dyfi eu hadleoli i ddarparu gwasanaeth Tuag Adref sy'n derbyn, ar gyfartaledd, 7 cyfeiriad yr wythnos.

Gwasanaeth arall a sefydlwyd ers cau'r ward dros dro yw'r Ystafell Driniaeth. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu amrywiaeth o driniaethau gofal clwyfau a gorchuddion yn ogystal â phroffion gwaed a rheolaeth cathetr, gyda'r bwriad o ehangu wrth i hyfforddiant a chymwyseddau ddatblygu. Mae sefydlu'r gwasanaeth hwn wedi lleihau'r galw ar ofal sylfaenol yn ogystal â rhyddhau capasiti Nyrsys Ardal gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar y cleifion sy'n gaeth i'r tŷ a chleifion mwy cymhleth gartref. Mae'r ystafell driniaeth wedi bod yn weithredol ers mis Gorffennaf 2023 gyda mwy na 2,700 o ymweliadau hyd yma. Gan nad oes angen adleoli staff o ardaloedd eraill i ddarparu'r lefelau staffio gofynnol ar gyfer y ward cleifion mewnol yn Nhywyn, mae hyn wedi caniatáu ailagor yr Uned Mân Anafiadau yn llwyddiannus hefyd. Mae'r Uned ar agor 5 diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd gyda chynlluniau i agor 7 diwrnod yr wythnos ac mae wedi gweld dros 1,300 yn mynychu ers iddo ailagor.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gallu darparu'r gwasanaethau hyn lle mae'r galw'n uchel, oherwydd bod y staff a adleolwyd yn gweithio'n agos gyda'r timau cymunedol a'r gymuned ei hun.

Mae'n werth nodi hefyd bod ardal y ward yn yr ysbyty yn cael ei defnyddio bob dydd, gan yr Hwb Llesiant, y Tîm Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, clinigau brechu rhag y fflw a Covid a chlinigau Fflebotomi. Mae nifer o glinigau cleifion allanol yn cael eu darparu gan Feddyg Ymgynghorol o BIPBC a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ogystal, ac mae ystafell mewnwythiennol wedi'i chyflwyno.

Mae staff BIPBC wedi croesawu'r newidiadau, ac wedi manteisio ar y cyfle i uwchsgilio a datblygu, gyda gwell morâl ymhlith y staff a gwell cydweithio tîm.

Beth yw'r opsiynau ar gyfer y dyfodol

Fel yr amlygwyd yn y drafodaeth yn y Pwyllgor Deisebau, mae angen gweithio gyda'r gymuned leol a'i chynrychiolwyr i ystyried beth yw'r model gorau ar gyfer darparu gwasanaethau ar gyfer yr ardal hon wrth symud ymlaen. Nid oes amheuaeth bod model diogel a chynaliadwy o ofal o ansawdd yn well na gofal lleol gwael.

Wrth ddymuno ceisio adfer ward Dyfi, ac mae'r bwrdd iechyd wedi nodi'n gyson mai dyna yw'r bwriad, mae pob ymdrech wedi'i chanolbwyntio ar sicrhau'r lefelau staffio digonol. Fodd bynnag, rydym wedi gweld dros y 18 mis diwethaf yr her wirioneddol o nid yn unig recriwtio ond hefyd o gadw staff mewn ardaloedd gwledig, fel y nodwyd yn ein gohebiaeth flaenorol gyda'r Pwyllgor, ar ôl i ni recriwtio rydym wedi gweld bod staff wedi dewis peidio ag aros am nifer o resymau.

Mae'n werth nodi, os a phan fydd recriwtio'n llwyddo i sicrhau'r isafswm diogel o lefelau staffio ar gyfer ward cleifion mewnol 24/7, mae'n sicr y byddai ailagor ward Dyfi yn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal gwasanaethau clinigol eraill a darpariaeth gymunedol yn y tymor hir. Byddai angen llenwi swyddi gwag yn ogystal ag absenoldebau o ddydd i ddydd (salwch tymor byr a thymor hir/absenoldeb mamolaeth/absenoldeb blyneddol ac ati) a fyddai'n golygu y byddai gwasanaethau fel Nyrsio Ardal, Tuag Adref a Mân Anafiadau yn cael eu heffeithio (lleihau capasiti/cau gwasanaeth) o ganlyniad i staff hyfforddedig y gwasanaethau hyn yn gorfod gweithio ar y ward i sicrhau'r lefelau staffio diogel cywir fyddai'n ofynnol ar gyfer y ward.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cael trafodaeth gyda'r gymuned leol ynghylch beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau lleol. Nododd y gweithdy ymgysylltu a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2024 nifer o wasanaethau roedd y grŵp wedi canfod iddynt fod yn ddiffygiol neu y gellid eu gwella yn yr ardal. Roedd y rhain yn cynnwys darpariaeth gwelyau cleifion mewnol, gofal diwedd oes, gofal seibiant a gwell cymorth iechyd meddwl. Mynychwyd y gweithdy gan randdeiliaid oedd yn cynnwys Cyngor Gwynedd, Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn, Cynghorwyr Tref Lleol, Aelodau'r Senedd, cartrefi nyrsio lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae ffrydiau gwaith i fynd i'r afael â'r themâu allweddol yn cael eu sefydlu gyda ffrwd waith Gofal yn Nes at y Cartref yn edrych ar ddatblygu llwybrau gofal

diogel a chynaliadwy ar gyfer y boblogaeth leol. Byddai hyn yn cynnwys archwilio cydweithio agosach gyda'r cartrefi gofal ac archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio model gweithio hybrid mewn ardaloedd gwledig eraill.

Ar 26 Tachwedd 2024, cynhaliodd Llais Gogledd Cymru fforwm cyhoeddus yn Nhywyn, i archwilio effaith cau Ward Dyfi ar gleifion Tywyn. Cynhaliwyd dwy sesiwn, un yn y bore ac un yn y prynhawn. Roedd y fforwm yn gyfle i'r cyhoedd gynnig mewnbwn ar effeithiau cau'r ward cleifion mewnol. Cefnogodd staff BIPBC y gweithdy hwn gan amlinellu'r hyn oedd wedi ei wneud i liniaru effaith cau'r ward cleifion mewnol tra'n sicrhau bod anghenion iechyd pobl Tywyn yn cael eu diwall.

Gan adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor Deisebau a chydweithio'n agos â LLAIS, mae ymgysylltu pellach â'r gymuned wedi'i gynllunio yn gynnar yn 2025 i drafod ffordd ymlaen sy'n fwy cynaliadwy.

Yn gywir,



Carol Shillabeer
Prif Weithredwr/Chief Executive

029 2076 8850

info@tenovuscancercare.org.uktenovuscancercare.org.uk

Russell George MS
 Chair, Health and Social Care Committee
 Senedd Cymru
 By email SeneddHealth@senedd.wales

19 December 2024

Dear Mr George,

On behalf of Tenovus Cancer Care, I am writing to you in your capacity Chair of the Senedd's Health and Social Care Committee. I wish to draw to your attention our response to the proposed increase in employer National Insurance Contributions (NIC) and share the impact that it will have on the charity and its ability to provide services to people affected by cancer across Wales.

We are deeply disappointed and frustrated at the lack of recognition of the devastating impact the increase in National Insurance Contributions will have on charities like Tenovus Cancer Care. We simply cannot sit back and take the hit.

This increase will very likely force charities to make extremely difficult decisions – cutting services, reducing workforce, or both. Such cutbacks would not only harm the vulnerable individuals we support but also the NHS, which cannot deliver the services we provide at the cost-efficiency we provide.

At Tenovus Cancer Care, we deliver essential services for people affected by cancer including counselling, nurse-led support, and benefits advice. This is provided free of charge, exclusively to the NHS. More than 10% of people diagnosed with cancer in Wales will use one of these vital services, that increases to nearly 20% in North Wales. Sadly, a third of those we support are end-of-life, facing their most difficult days.

We estimate this additional financial burden will cost us, at a minimum, a quarter of a million pounds (£250,000) annually. It's equivalent to the cost of running our benefits advice service. In the last year, this service alone helped secure £4.1m worth of payments to 1,820 people with cancer across Wales.

It is a misconception that all charities are cushioned by government grants or contracts. For many, including us, operations rely almost entirely on charitable donations. While we absolutely want to pay our staff fairly and anticipated the living wage increases, the scale of this NIC rise is unsustainable in the context of a challenging fundraising environment.

We are a substantial employer, with 228 staff working across our 56 shops, head office, and out in communities across Wales. This decision also risks harming the foundational economy within the very communities we serve.

Call our free Support Line
0808 808 1010

Ffoniwch ein Llinell Gymorth rhadffôn

Jones Court, Womanby Street, Cardiff CF10 1BR. Jones Court, Stryd Ffôn Cymru, Caerdydd CF10 1BR.
 Patron: HRH The Princess Royal. Noddwraig: Ei Huchelder Brenhinol Y Dywysoges Frenhinol.

Registered Charity Number 1054015 Company Limited by Guarantee Number 943501 Elusen Gofrestredig Rhif 1054015 Cwmni Cyfyngedig trwy Warant Rhif 943501



Cofrestrwyd gyda'r



FUNDRAISING
 REGULATOR
 RHEOLEIDDIWR
 CODI ARIAN

Tudalen y pecyn 101

Despite the disproportionate impact of the pandemic and cost-of-living crisis on charities like ours, we received no bespoke support and were forced to make huge redundancies just to keep afloat. After working hard to recover, finally balance our budgets, and supporting public services, being told to absorb this increase is a bitter blow.

Therefore, we are calling for:

- The UK Government to reconsider the NIC increase for charities such as ours that provide direct support to the NHS from charitable funds and include us in exemptions as has been done for public sector organisations.
- Welsh political representatives to advocate for us – and for others in our situation - across the Welsh third sector, and appeal to the UK Government for urgent action to protect vital services that people rely on, often at time of personal crisis.
- The Welsh Government to mitigate the burden if UK exemptions are not forthcoming – an acknowledgment of the services we deliver free of charge to patients across Wales.

I trust that my contribution is shared amongst members of the Committee and is taken into consideration as and when the Committee considers the impact of the up and coming Budget on Wales.

I am happy and able to find the time to meet with you to discuss further.

Please contact me via alison.partridge@tenovuscancercare.org.uk to make arrangements or if require additional information.

Yours sincerely,



Judi Rhys MBE

Chief Executive

Jane Dodds

Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Member of the Senedd for
Mid and West Wales

Item 3.8

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565 

@janedoddswld 

@DoddsJane 

/JaneDoddsWLD 

Russell George MS

Chair of the Health and Social Care Committee

5th Floor

Tŷ Hywel

Cardiff Bay

CF99 1NA

Dyddiad | Date: 24th December 2024

Pwnc | Subject: Proposal for Inquiry into Gambling-Related Harm in Wales

Annwyl Russell

I am writing to respectfully request that the Health and Social Care Committee consider undertaking a short inquiry into gambling-related harm in Wales and its impact on public health and social care services.

Recent data reveals a deeply concerning picture: 19% of all gambling premises are concentrated in Wales's 10% most deprived areas, demonstrating a clear pattern of industry targeting of vulnerable communities. The human cost is stark - new data from the Gambling Commission indicates gambling addiction now affects 2.5% of the population of Great Britain, eight times higher than previously thought, with clear links to suicide and mental health issues.

While England has established 15 NHS gambling clinics, Wales has none - leaving an estimated 120,000 Welsh people struggling with gambling harm without access to specialized NHS treatment. This service gap is particularly concerning given that a survey in 2018 found that gambling harms are three times higher in our most deprived areas.

Key areas that would benefit from committee scrutiny include:

1. The urgent need for dedicated NHS gambling treatment services in Wales, including assessment of potential locations and required funding models.
2. The effectiveness of gambling education and prevention, particularly given that 27% of young people aged 11-17 have gambled using their own money in the past year, with reported impacts on sleep, school attendance, and academic performance.



3. The concentration of gambling premises in deprived areas and potential policy responses within devolved competencies.
4. The adequacy of current support services and their funding, noting that frontline support charities are severely under-resourced compared to industry marketing capabilities.

A review at this time is particularly pertinent given the UK Government's recent introduction of a statutory levy to support gambling harm research, prevention, and treatment, alongside plans to impose limits on online casino customers' stakes for slot machines. This statutory levy presents a critical opportunity for Wales to align services with the UK framework while leveraging devolved powers in public health, mental health, education, and local government to take meaningful action.

I would welcome the opportunity to provide any additional information that might assist the Committee in considering this proposal.

Thank you for your consideration of this matter.

Yn gywir,



Jane Dodds MS/AS

Member of the Senedd for Mid and West Wales

Aelod o'r Senedd dros Canolbarth a Gorllewin Cymru

08 Ionawr 2025

Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Annwyl Russell

P-06-1480 Gwneud y menopos yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer pob myfyriwr y gwyddorau gofal iechyd a meddygaeth

Bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Nico Campbell, yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr.

Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r ddeiseb ar agor hyd nes cyhoeddi'r Cynllun Iechyd Menywod, a lansiwyd ar 9 Rhagfyr. Cytunodd yr Aelodau hefyd y byddwn yn ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor i gyfeirio'r ddeiseb i'w hystyried wrth graffu ar y cynllun hwnnw. Byddwch yn nodi inni wneud cais tebyg mewn perthynas â deiseb gynharach yn ymwneud â'r menopos, P-06-1444 'Mae gan ferched Gogledd Cymru yr hawl i gael Gwasanaethau/Clinig Menopos yn Ysbyty Gwynedd', a drafodwyd ar 30 Medi.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Cyngor Meddygol Cyffredinol i ofyn am ragor o wybodaeth am sut y mae'n sicrhau bod hyfforddiant meddygol yn cynnwys y menopos fel agwedd orfodol.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1480 Gwneud y menopos yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer pob myfyriwr y gwyddorau gofal iechyd a meddygaeth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb dros e-bost at y tîm clericio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir



Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

